Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Crynodeb o'r canfyddiadau yn ein hadroddiadau thematig cenedlaethol

ar gyfer 2015








**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.  Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau awdurdod addysg lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

# Rhagair

Rwy'n gobeithio bydd y compendiwm hwn, a'r gyfres lawn o adroddiadau sy'n sylfaen iddo, yn addysgiadol ac yn berthnasol.

Mae adroddiadau thematig 2015 Estyn yn cwmpasu amrywiaeth o agweddau pwysig ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Adroddant ar safonau a darpariaeth ar draws ystod o sectorau a themâu addysg, yn cynnwys rôl yr athro ymgynghorol 10% mewn lleoliadau nas cynhelir, y celfyddydau creadigol mewn ysgolion cynradd, cymorth rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, ac effeithiolrwydd arsylwadau addysgu a dysgu mewn colegau addysg bellach.

Mae Estyn yn gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i gynllunio'r rhaglen o adroddiadau thematig y mae llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog Addysg a Sgiliau i PAEM yn gofyn amdani. Mae'r rhaglen hon yn ystyried blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru ac, eleni, roedd yn cynnwys arolygon o arfer effeithiol yn ymwneud â gwella presenoldeb mewn ysgolion cynradd, addysg i ddysgwyr heblaw yn yr ysgol a mathemateg yng nghyfnod allweddol 3.

Mae adroddiadau thematig Estyn yn mynd i'r afael â materion sydd o bryder canolog i lunwyr polisïau, fel ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth mewn ysgolion. Yn 2015, cyhoeddom dri arolwg yn ymwneud ag arweinyddiaeth: arfer orau o ran datblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion, cymorth a chydweithio rhwng ysgolion, a'r defnydd statudol o safonau arweinyddiaeth wrth reoli perfformiad penaethiaid.

Bwriedir i'n hadroddiadau gyfrannu at ystyriaeth ehangach a thrafodaethau presennol mewn meysydd polisi, fel cynllunio'r cwricwlwm 3-16 oed newydd, yn ogystal â rhannu arfer orau ar draws pob sector. Mae'r rhaglen o adroddiadau thematig ar gyfer 2016 yn addo bod yr un mor berthnasol, gydag adolygiadau yn mynd rhagddynt i bynciau mor amrywiol â pherthnasoedd iach, addysg ariannol, effaith y Mesur Dysgu a Sgiliau ar ddysgwyr agored i niwed, a chwarae a dysgu gweithgar ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2.

Rydym yn gobeithio bod ein hadroddiadau thematig yn cael eu defnyddio'n helaeth gan ddarparwyr i wella'u harfer a gwella deilliannau i ddysgwyr yng Nghymru. Mae'r compendiwm hwn o'r holl adroddiadau thematig a gyhoeddwyd hyd yn hyn eleni yn dod â phrif ganfyddiadau ac argymhellion o bob adroddiad ynghyd er hwylustod. Mae'r adroddiadau llawn, gan gynnwys astudiaethau achos, ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig

**Meilyr Rowlands**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Llythrennedd yng nghyfnod allweddol 3: Adroddiad interim** | **1** |
| **Arfer dda mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 3** | **4** |
| **Effaith athrawon ymgynghorol ar leoliadau nas cynhelir a ariennir** | **7** |
| **Arfer orau mewn addysgu a dysgu yn y celfyddydau creadigol yng nghyfnod allweddol 2** | **11** |
| **Pa mor dda y mae sefydliadau addysg bellach yn rheoli cwynion gan ddysgwyr?** | **14** |
| **Gwella ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol** | **17** |
| **Arfer orau o ran datblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion** | **21** |
| **Arfer effeithiol o ran gwella presenoldeb mewn ysgolion cynradd** | **24** |
| **Addysg Heblaw yn yr Ysgol: arolwg arfer dda** | **26** |
| **Cymorth a chydweithio rhwng ysgolion** | **30** |
| **Adolygiad o bolisïau ymweliadau addysgol yn y sector addysg bellach** | **33** |
| **Arsylwi addysgu a dysgu yn effeithiol mewn colegau addysgu bellach** | **36** |
| **Chwalu rhwystrau rhag prentisiaethau** | **39** |
| **Defnydd statudol o safonau arweinyddiaeth wrth reoli perfformiad penaethiaid** | **40** |
| **Gwasanaethau cymorth dysgwyr mewn colegau addysg bellach ar gyfer dysgwyr 16-19 oed** | **43** |

# Teitl: Llythrennedd yng nghyfnod allweddol 3: Adroddiad interim

## Prif ganfyddiadau

1 Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, yn gyffredinol barnwyd bod safonau'n rhagorol mewn tua un o bob naw ysgol a arolygwyd, ac yn dda mewn bron i ddwy o bob pum ysgol, sy'n debyg i'r ddwy flynedd flaenorol. Mae disgyblion yn defnyddio eu medrau llythrennedd yn dda yn yr ysgolion hyn.

2 Er bod safonau mewn Saesneg a Chymraeg mamiaith ar lefel 5 ac yn uwch yn parhau i godi, mae safonau llythrennedd disgyblion yn parhau i fod yn debyg i'r rheiny yr oeddent ddwy flynedd ar adeg yr arolwg gwaelodlin. Ym mwyafrif yr ysgolion a arolygwyd, ac yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg, mae safon gyffredinol llythrennedd disgyblion yn ddigonol.

3 Mewn mwyafrif o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg, digonol yn unig yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion. Ers yr arolwg gwaelodlin, mae llawer o ysgolion wedi cynyddu cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion gynhyrchu ysgrifennu estynedig. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, ceir ymwybyddiaeth well ymhlith athrawon o'r angen i ddatblygu medrau darllen a llafar disgyblion. Fodd bynnag, mae ffurf y ddarpariaeth yn gyffredinol yn parhau i fod yn debyg i'r hyn a adroddwyd amdano yn yr arolwg gwaelodlin.

4 Cyflwynwyd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn gyflym, ond mae cynnydd o ran rhoi'r fframwaith ar waith wedi bod yn arafach na'r disgwyl am sawl rheswm, gan gynnwys:

- nid yw'r cyfnod rhagarweiniol byr yn caniatáu digon o amser i ysgolion baratoi yn ddigon da;
- yr anawsterau o ran cael cymorth yn sgil gwefan nad yw'n hawdd ei defnyddio;
- cyfle annigonol i fanteisio ar leoedd hyfforddi;
- nid oes gan fwyafrif o ysgolion ddealltwriaeth glir o ddilyniant mewn safonau llythrennedd disgyblion; ac
- arweiniad annigonol ar asesu, gan gynnwys enghreifftiau o safonau llythrennedd a deunyddiau prawf.

5 Mae bron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion ers yr arolwg gwaelodlin. Mae'r ysgolion hyn yn nodi llythrennedd yn flaenoriaeth ysgol gyfan ac yn gweld gwerth y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mewn lleiafrif o ysgolion, caiff llythrennedd ei gynnwys yn briodol mewn cynlluniau datblygu pynciau. Lle mae angen gwaith o hyd, nid yw pob pwnc yn cynnwys llythrennedd yn eu cynlluniau ac mae meini prawf llwyddiant yn annelwig ac yn ymwneud yn bennaf â darpariaeth yn hytrach na deilliannau mesuradwy (A1).

6 Nid yw'r ffordd y caiff medrau llythrennedd disgyblion eu hasesu a'u holrhain wedi'i datblygu'n ddigonol o hyd yn y rhan fwyaf o ysgolion, heblaw ar gyfer disgyblion sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni ymyrraeth penodol, er bod gan y rhan fwyaf o ysgolion systemau olrhain addas i fonitro cynnydd mewn pynciau (A2).

7 Mae llawer o ysgolion wedi amlinellu cyfleoedd trawsgwricwlaidd ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion, ond prin yw'r ysgolion sydd wedi gwneud digon o gynnydd mewn sicrhau ansawdd y cyfleoedd hynny, nac wrth gynllunio ar gyfer dilyniant o ran datblygu medrau disgyblion.

8 Mae mwyafrif o ysgolion wedi cynyddu'r disgwyliad i ddisgyblion gwblhau mwy o ysgrifennu estynedig. Fodd bynnag, ni chaiff y dulliau o wella ansawdd a chywirdeb technegol disgyblion eu cymhwyso'n gyson ar draws y cwricwlwm. Nid yw'r ffordd y caiff ysgrifennu ei addysgu wedi'i ddatblygu'n ddigonol o hyd mewn lleiafrif o ysgolion. Mae'r ffocws ysgol gyfan gan amlaf ar gyflwyno dull cyson o farcio llythrennedd. Mae cael dull ysgol gyfan o farcio gwaith disgyblion wedi sicrhau cysondeb gwell yn ymarferol, er ei fod yn parhau i fod yn amrywiol mewn llawer o ysgolion. (A3).

9 Mewn rhai ysgolion, mae datblygu llythrennedd disgyblion yn well mewn pynciau heblaw Cymraeg neu Saesneg. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon Cymraeg a Saesneg yn defnyddio dull rhy lenyddol o ymdrin â'u pynciau ac yn canolbwyntio gormod ar ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad disgyblion o'r testun llenyddol yn hytrach nag ar ddatblygu medrau llythrennedd penodol.

10 Mae llawer o ysgolion yn nodi arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau fel y ffordd o fonitro ac arfarnu strategaethau ar gyfer gwella llythrennedd. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, nid yw'r gweithgareddau hyn yn canolbwyntio'n ddigon craff ar effaith y ddarpariaeth. Yn gyffredinol, nid yw athrawon yn deall sut i farnu safonau llythrennedd ar draws y cwricwlwm (A4).

11 Mae lleiafrif o ysgolion wedi gwneud cynnydd da yn datblygu medrau darllen lefel uwch disgyblion, fel cyfosod, dod i gasgliad, llunio casgliad a rhagfynegi. Fel arfer, mae disgyblion yn gwneud y cynnydd hwn mewn gwersi Cymraeg, Saesneg a'r dyniaethau. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif o ysgolion yn cynllunio gweithgareddau sy'n herio disgyblion mwy abl yn gyson. Mae mwyafrif o staff yn parhau i gefnogi datblygu medrau darllen ac ysgrifennu lefel uwch disgyblion trwy ddarpariaeth bresennol y cwricwlwm yn hytrach nag i ymateb i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae hyn yn golygu nad yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen ac ysgrifennu yn ddilyniannol ac nid yw'n adeiladu ar yr hyn y mae disgyblion eisoes yn ei wybod ac yn ei ddeall (A5).

12 Mae ansawdd a graddau'r cymorth i ysgolion ddatblygu llythrennedd disgyblion wedi bod yn amrywiol, a chyfyngedig fu ei effaith. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae'r awdurdod lleol neu'r consortiwm wedi darparu hyfforddiant ar ymddygiadau darllen, addysgu tactegol a defnyddio offer diagnostig y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Fodd bynnag, mewn mwyafrif o ysgolion, nid yw'r cymorth hwn wedi bod ar gael a chyfyngedig fu'r cyfleoedd i rannu arfer orau ag ysgolion eraill. Roedd llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn anfodlon â'r cymorth a gynigir iddynt gan yr awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol (A6 ac A7).

13 Mae cydlynydd llythrennedd gan bron bob ysgol, sydd â chefndir addysgu mewn Cymraeg neu Saesneg ac sy'n meddu ar fedrau llythrennedd addas. Mae hyn yn gyfran uwch na'r hyn a adroddwyd amdano yn yr arolwg gwaelodlin. Mae trosiant staff yn her i ysgolion ac fe benododd dros hanner yr ysgolion eu cydlynwyr llythrennedd yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae llawer o'r cydlynwyr newydd hyn yn ymgyfarwyddo â'r swydd o hyd.

14 Mae canlyniadau profion darllen cenedlaethol blynyddol ar gael i ysgolion fonitro cynnydd pob disgybl yn darllen. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r defnydd a wna ysgolion o ganlyniadau'r profion hyn i gynllunio profiadau dysgu ar draws y cwricwlwm. Mewn llawer o ysgolion, mae'r wybodaeth ar gael, ond yn cael ei ystyried yn eiddo i'r adran Gymraeg neu'r adran Saesneg yn hytrach nag fel adnodd ar gyfer yr ysgol gyfan.

**Argymhellion**

**Dylai ysgolion:**

A1 roi dull trawsgwricwlaidd dilyniannol a chydlynus ar waith o ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion, yn unol â disgwyliadau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd;

A2 olrhain a monitro'r dilyniant ym medrau llythrennedd disgyblion yn erbyn disgwyliadau diwedd blwyddyn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd;

A3 annog arbenigwyr pwnc Cymraeg a Saesneg i arwain mewn gwella cysylltiadau rhwng pynciau i gefnogi dull cyson a dilyniannol o ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion;

A4 darparu cyfleoedd a chymorth da ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion wella eu hysgrifennu, gan gynnwys ei gywirdeb technegol; a

A5 monitro ac arfarnu effaith y strategaethau ar gyfer gwella medrau llythrennedd disgyblion.

**Dylai awdurdodau lleol / consortia rhanbarthol:**

A6 egluro rolau awdurdodau lleol, consortia a'r partneriaid cymorth cenedlaethol ar gyfer hyfforddi a chynorthwyo ysgolion i roi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar waith; a

A7 gwella'r defnydd o gyfarfodydd clwstwr pontio i sefydlu dull cyson o addysgu medrau llythrennedd.

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A8 drefnu bod deunyddiau cymorth i ysgolion ar gael cyn datblygu'r fframwaith ymhellach;

A9 gwneud yn siŵr bod pob ysgol yn gallu manteisio ar ddeunyddiau cymorth yn hawdd; a

A10 rhoi arweiniad clir i ysgolion ar asesu a chynnig enghreifftiau o safonau llythrennedd disgwyliedig ar draws pob pwnc.

## Teitl: Arfer dda mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 3

### Prif ganfyddiadau

1 Yn 2014, yn ôl asesiadau athrawon, cyflawnodd 86.5% o ddisgyblion y lefel 5 ddisgwyliedig neu'n uwch mewn mathemateg ar ddiwedd cyfnod allweddol 3. Mae hyn yn welliant 13 pwynt canran er 2009. Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim gryn dipyn yn llai tebygol o gyflawni'r lefel 5 ddisgwyliedig neu'n uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 (71%) o gymharu â'r rhai nad ydynt yn gymwys (90%).

2 Yn 2013, roedd canran y disgyblion yng Nghymru a gyflawnodd lefel 5 neu'n uwch mewn mathemateg yr un fath ag yr oedd yn Lloegr. Fodd bynnag, nid yw cyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefelau uwch yn cymharu'n ffafriol, ac fe lwyddodd 21% o ddisgyblion yng Nghymru i gyflawni lefel 7 neu'n uwch o gymharu â 32% yn Lloegr.

3 Dywedodd y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) yn 2012 fod bechgyn yng Nghymru wedi perfformio cryn dipyn yn well na merched mewn mathemateg. Mae hyn yn ymddangos yn groes i asesiadau athrawon yng nghyfnod allweddol 3 a chanlyniadau arholiadau yng nghyfnod allweddol 4, lle mae merched yn perfformio'n well na bechgyn yn gyson. Nid oes esboniad cytûn yn gyffredinol ar gyfer yr anghysondeb hwn ac mae angen ymchwilio iddo ymhellach.

4 Mae'r holl ysgolion yr ymwelwyd â nhw at ddiben yr arolwg hwn yn ysgolion 'arfer dda'. Mae safonau cyflawniad disgyblion yn dda neu'n well ym mwyafrif y gwersi mathemateg a arsylwyd yn yr arolwg. Mewn lleiafrif o wersi, lle roedd safonau'n ddigonol, roedd disgyblion yn araf yn galw dysgu blaenorol i gof, nid oeddent yn gallu gwneud cysylltiadau rhwng gwahanol destunau mathemategol, ac nid oeddent yn cael gwaith oedd yn addas ar gyfer eu hanghenion neu'n eu hymestyn ddigon.

5 Mae'r addysgu'n dda neu'n well ym mwyafrif y gwersi a arsylwyd. Yn y gwersi hyn, mae llawer o athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol gadarn ac yn cynllunio gwersi gydag amcanion clir. Mewn rhai gwersi, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd am nad yw cynnwys y wers yn adeiladu ar ddysgu blaenorol neu'n mynd i'r afael â'r anawsterau sydd ganddynt â mathemateg. I'r gwrthwyneb, ni chaiff disgyblion mwy abl eu herio'n ddigonol gan fod gormod o ailadrodd testunau syml neu nid ydynt yn cael digon o gyfle i archwilio mathemateg trwy ddysgu annibynnol.

6 Hyd yn oed mewn adrannau mathemateg cryf, ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd i gymhwyso neu ymestyn eu medrau gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn ystod eang o gyd-destunau datrys problemau. Yn y gwersi prin lle roedd disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau datrys problemau, mae mwyafrif ohonynt yn dehongli cyd-destunau bywyd go iawn yn ystyriol ac yn dewis strategaethau priodol i ddatrys problemau sy'n gynyddol gymhleth.

7 Mae llawer o'r adrannau mathemateg yr ymwelwyd â nhw wedi datblygu rhwydwaith ar gyfer rhannu arfer dda gyda'u hysgolion cynradd lleol. Mae'r trefniadau'n cynnwys rhannu data ar gynnydd a datblygu dulliau cytûn ar gyfer addysgu testunau mathemateg. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, caiff trefniadau pontio eu cyfyngu i gyfnewid data perfformiad electronig.

8 Ym mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae marcio athrawon yn gyson o ran amlder ac ansawdd. Gosodir targedau heriol ar gyfer disgyblion a grwpiau o ddisgyblion ac fe gânt eu monitro trwy systemau strwythuredig ar gyfer asesu ac olrhain disgyblion. Mewn rhai ysgolion, ceir diffygion pwysig mewn asesu ac olrhain, yn enwedig wrth olrhain cynnydd disgyblion sy’n cymryd rhan mewn gwersi ymyrraeth mathemateg ar ôl iddynt ddychwelyd i wersi prif ffrwd.

9 Mae cwricwlwm mathemateg cyfnod allweddol 3 mewn llawer o’r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn darparu sylfaen briodol ar gyfer disgyblion i’w paratoi ar gyfer y cam dysgu nesaf. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae prinder athrawon mathemateg sydd â chymwysterau a phrofiad addas yn cyfyngu ar drefniadau i gyflwyno’r cwricwlwm. Mae hyn yn fwyaf nodedig ym Mlwyddyn 7 lle mae gan ddisgyblion mewn rhai ysgolion fwy nag un athro ar gyfer gwersi mathemateg ac mae profiad y staff dan sylw o addysgu mathemateg yn gyfyngedig, os oes ganddynt brofiad o addysgu mathemateg o gwbl. Mae hyn yn effeithio ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion Blwyddyn 7 mewn rhai ysgolion.

10 Ym mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae’r arweinyddiaeth mewn adrannau mathemateg yn dda neu’n well. Yn yr ysgolion hyn, mae penaethiaid yr adrannau mathemateg yn gweithio’n agos gyda’u staff, gan gyfleu disgwyliadau uchel ar gyfer deilliannau disgyblion a sicrhau bod gan bob un o’r staff ddealltwriaeth gadarn o ddulliau addysgu effeithiol mewn mathemateg. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw hunanarfarnu a chynllunio gwelliant adrannol yn ddigon trylwyr ac nid ydynt yn darparu sylfaen addas i sicrhau gwelliant.

11 Mewn mwyafrif o ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae staff addysgu mathemateg yn elwa ar ystod o gyfleoedd datblygiad proffesiynol amrywiol i wella eu haddysgu a phrofiadau dysgu disgyblion. Mewn rhai ysgolion, nid oes digon o gyfleoedd i staff rannu arfer orau yn yr adran neu’r ysgol, na gydag ysgolion lleol neu deuluol eraill.

12 At ei gilydd, nid yw graddau’r cymorth a’r her i adrannau mathemateg yn ddigon cyson ar draws awdurdodau lleol a’r consortia rhanbarthol. Ychydig o adrannau mathemateg yn unig sy’n cael cymorth i rwydweithio ag ysgolion eraill i rannu a datblygu arfer dda. Yn yr ysgolion hyn, mae ymgynghorwyr arbenigol pwnc profiadol yn eu herio i wella eu harfer, i ychwanegu at gymorth tîm arweinyddiaeth yr ysgol.

## Argymhellion

I wella safonau mathemateg yng nghyfnod allweddol 3:

**Dylai adrannau mathemateg:**

A1 fonitro perfformiad disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a chynnig ymyriadau targedig yn ôl yr angen

A2 bodloni anghenion disgyblion sy’n cael anawsterau neu ddisgyblion mwy abl

A3 cynyddu lefel yr her ar gyfer pob un o’r disgyblion trwy wneud yn siŵr bod:

- gwersi’n cael eu strwythuro i ennyn diddordeb pob un o’r disgyblion, eu cymell a’u hymestyn

- medrau datrys problemau mathemategol yn cael eu datblygu a'u cymhwyso mewn ystod eang o gyd-destunau bywyd go iawn

A4 sicrhau bod gweithdrefnau asesu ac olrhain yn gadarn

A5 gwella hunanarfarnu a chynllunio gwelliant adrannol

A6 rhannu arfer orau ar draws yr ysgol ac arfarnu ffyrdd newydd o weithio

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

A7 hwyluso rhwydweithiau ar gyfer rhannu arfer orau rhwng adrannau mathemateg

A8 darparu cymorth, her a chyfleoedd datblygiad proffesiynol ar gyfer adrannau mathemateg ac athrawon unigol

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A9 ymchwilio i'r gwahaniaeth mewn deilliannau rhwng bechgyn a merched mewn mathemateg

A10 mynd i'r afael â diffygion o ran cyflenwad athrawon mathemateg cymwys

# Teitl: Effaith athrawon ymgynghorol ar leoliadau nas cynhelir a ariennir

## Prif ganfyddiadau

1 Mae rôl yr athro ymgynghorol yn y sector nas cynhelir wedi newid dros gyfnod. Ar y dechrau, roedd athrawon ymgynghorol yn modelu arfer dda yn bennaf. Erbyn hyn, mae athrawon ymgynghorol yn darparu mwy o gymorth ar gyfer rheoli a gweinyddu, ond llai ar gyfer addysgu a dysgu. Fodd bynnag, mae trosiant uchel o staff yn y sector nas cynhelir ac mae angen mwy o gymorth ar lawer o leoliadau ar ffurf modelu arfer dda.

2 Mewn rhai lleoliadau nas cynhelir lle mae'r athro ymgynghorol yn modelu addysgu da yn rheolaidd, mae ymarferwyr yn fwy hyderus yn chwilio am ffyrdd o wella deilliannau ar gyfer plant ac yn barnu safonau plant. Mae modelu adrodd storïau neu sut i ennyn diddordeb plant mewn creu marciau yn cael effaith gadarnhaol ar y safonau a gyflawnir gan blant.

3 Nid yw lleiafrif o leoliadau yn cael digon o gyngor am sut i wella'r safonau a gyflawnir gan blant na sut i gyflwyno gweithgareddau mewn ffyrdd amrywiol a diddorol. Lleiafrif o athrawon ymgynghorol yn unig sy'n rhoi arweiniad ar weithgareddau i helpu plant mwy abl neu blant sy'n cael anawsterau. Yn y rhan fwyaf o leoliadau, mae'r athro ymgynghorol yn darparu cymorth effeithiol o ran datblygu dealltwriaeth ymarferwyr o agweddau ar y Cyfnod Sylfaen, fel gwneud defnydd gwell o ardaloedd awyr agored.

4 Pan fydd athrawon ymgynghorol yn canolbwyntio ar ansawdd rhyngweithio ymarferwyr gyda phlant, caiff hyn effaith sylweddol ar y safonau a gyflawnir gan blant.

5 Mewn llawer o leoliadau cyfrwng Saesneg, mae cymorth yr athro ymgynghorol wedi helpu i godi safonau plant yn y Gymraeg. Er enghraifft, maent yn gweithio gydag ymarferwyr yn gydwybodol i ddatblygu geirfa addas i'w defnyddio mewn arferion bob dydd ac yn annog defnyddio canu i ymgorffori patrymau iaith syml.

6 Mewn mwyafrif o ymweliadau athrawon ymgynghorol, mae gormod o bwyslais ar helpu'r lleoliad i lunio dogfennau polisi, fel cynllun datblygu neu adroddiad hunanarfarnu. Mae athrawon ymgynghorol yn dechrau darparu lefel well o her o ran y safonau a gyflawnir gan blant, ond mewn mwyafrif o leoliadau, maent yn canolbwyntio gormod o hyd at fiwrocratiaeth rheoli a chynllunio, a dim digon ar addysgu a dysgu.

7 Ledled Cymru, ceir llawer o wahanol fodelau cymorth gan yr athro ymgynghorol. Y model mwyaf llwyddiannus yw model lle mae lleoliadau'n cael y dyraniad llawn o ran amser athro ymgynghorol ar y safle, darperir hyfforddiant ychwanegol, a disgwylir i leoliadau fynychu isafswm o hyfforddiant bob blwyddyn.

8 Mae mwyafrif o awdurdodau lleol yn dyrannu faint o amser a gaiff pob lleoliad yn unol â'u hasesiad o angen. Mae hyn yn golygu nad ydynt o reidrwydd yn cydymffurfio â gofynion Grant y Cyfnod Sylfaen i ddarparu cymorth athro

cymwysedig am 10% o'r amser ar gyfer pob lleoliad. Mae llawer o leoliadau da yn cael llai na'u dyraniad ac nid ydynt yn cael digon o gymorth i fod yn rhagorol.

9 Mae bron pob lleoliad yn cael ymweliadau ychwanegol a chymorth cynyddol wedi i Estyn eu hysbysu am arolygiad. Dywed llawer o leoliadau eu bod yn colli ymweliadau wedi'u trefnu pan fydd arolygiad ar fin cael ei gynnal mewn lleoliad yn rhywle arall. Nid yw canolbwyntio amser athro ymgynghorol ar baratoi lleoliadau ar gyfer arolygiad yn ffordd dda o ddefnyddio amser ac nid yw'n darparu'r gwasanaeth gorau.

10 Mae'r graddau y caiff gwaith athrawon ymgynghorol ei fonitro yn amrywio ledled Cymru. Mewn llawer o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, mae rheolwyr llinell yn craffu ar nodiadau ymweliadau, yn arfarnu data arolygu ac o bryd i'w gilydd yn mynychu hyfforddiant a ddarperir gan yr athro ymgynghorol. Mae gan bron bob un o'r awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol weithdrefnau ar gyfer rheoli perfformiad sy'n gysylltiedig â chyflog ac amodau athrawon, ond ychydig iawn ohonynt sy'n arsylwi athrawon ymgynghorol yn gweithio mewn lleoliad. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn cael gwybodaeth uniongyrchol berthnasol am effeithiolrwydd eu hathrawon ymgynghorol o ran cefnogi lleoliadau.

11 Mae mwyafrif o awdurdodau lleol yn cynnal a gwella medrau ac arbenigedd eu hathrawon ymgynghorol yn briodol. Mewn rhai awdurdodau lleol, yn enwedig lle nad yw athrawon ymgynghorol yn gweithio mewn ysgolion hefyd, nid ydynt bob amser yn cael gwybodaeth am newidiadau sy'n effeithio ar y sector yn rheolaidd yn y ffordd y mae staff ysgol yn cael gwybodaeth felly.

12 Nid yw awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol bob amser yn gallu darparu hyfforddiant ym mhrif iaith lleoliad. Mae llawer o awdurdodau lleol yn ne Cymru yn cynnig hyfforddiant yn Saesneg yn unig ar gyfer lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Ychydig iawn o awdurdodau lleol sy'n hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig ac mae ymarferwyr nad ydynt yn rhugl yn Gymraeg yn ei chael yn anodd dilyn a deall yr hyfforddiant yn llawn.

13 Mae heriau i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol o ran amseru digwyddiadau hyfforddi fel bod ymarferwyr o bob lleoliad yn gallu mynychu. Mae lleoliadau yn aml yn ei chael yn anodd rhyddhau staff ar gyfer hyfforddiant am na allant ddarparu digon o staff llanw. Mae rhai awdurdodau lleol yn ymwybodol o hyn ac yn amrywio amser hyfforddi yn unol â hynny.

14 Mewn llawer o awdurdodau lleol, mae'r diffyg cydweithio agos rhwng yr athrawon ymgynghorol ac asiantaethau'r sector gwirfoddol yn golygu bod ymarferwyr weithiau'n cael cyngor anghyson. Mewn rhai achosion, mae bylchau pwysig yn y cyngor a'r cymorth a gaiff ymarferwyr, er enghraifft mewn perthynas â gweithdrefnau diogelu neu sut i gynorthwyo plant y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol.

15 Nid yw awdurdodau lleol bob amser yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am fonitro'r cymorth a gaiff lleoliadau gan sefydliadau sector gwirfoddol, hyd yn oed pan fyddant yn talu am y gwasanaeth. Mae hyn yn golygu bod yr awdurdod lleol yn ansicr

ynghylch ansawdd y cyngor a ddarperir neu p'un a yw'r cyngor ar amddiffyn plant, er enghraifft, yn gyfoes.

16 Mae'r ffordd y caiff arfer orau ei rhannu rhwng y sectorau ysgolion a lleoliadau nas cynhelir yn amrywio ar draws gwahanol awdurdodau lleol a chonsortia, ac nid yw bob amser yn gwneud y defnydd gorau o'r arbenigedd yn y naill sector na'r llall. Er enghraifft, mae ymarferwyr meithrin mewn ysgolion yn brofiadol mewn cynllunio camau nesaf plant, sy'n aml yn broblem i leoliadau, a gallent elwa ar rannu'r arfer hon. Yn yr un modd, mae ymarferwyr mewn lleoliadau yn aml yn gwneud defnydd effeithiol o weithgareddau, er enghraifft amser byrbryd, i ddatblygu medrau personol a chymdeithasol plant, a gellid rhannu'r arfer dda hon yn ehangach gydag ysgolion.

17 Mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn ariannu amser athrawon ymgynghorol o Grant y Cyfnod Sylfaen. Mae'r symiau gwahanol iawn o arian a ddyrennir yn golygu bod gwahaniaethau sylweddol ledled Cymru o ran faint o gymorth a ddarperir. Mae rhai awdurdodau lleol yn ystyried datganoli rheoli Grant y Cyfnod Sylfaen i gonsortia, er bod y gwahaniaethau rhwng awdurdodau lleol yn y ffordd y maent yn ariannu lleoliadau, athrawon ymgynghorol a hyfforddiant yn rhwystro hyn. Wrth ddyrannu cyllid Grant y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn rhoi blaenoriaeth i fodloni ymarebau'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer staff mewn ysgolion, wedi'i ddilyn gan ddarparu hyfforddiant a chymorth ar gyfer ysgolion. O ganlyniad, nid yw mwyafrif o leoliadau yn cael y 10% a argymhellir o amser athrawon ymgynghorol, am nad oes digon o adnoddau ar ôl i ariannu hyn.

18 Nid yw awdurdodau lleol bob amser yn cynllunio'n systematig i sicrhau bod hawl plentyn i addysg a ariennir yn cael ei bodloni'r un mor dda mewn ysgolion a lleoliadau fel ei gilydd, oherwydd yr amrywioldeb yn y modd y maent yn defnyddio cymorth a chyllid ledled Cymru a rhwng y sectorau.

## Argymhellion

**Dylai athrawon ymgynghorol:**

A1 ddarparu lefel addas o her ar gyfer lleoliadau a sicrhau bod ymweliadau a hyfforddiant yn canolbwyntio ar wella safonau plant

A2 parhau ag arweinyddiaeth a rheolaeth gefnogol ond gwneud mwy i fodelu arfer effeithiol yn yr ystafell ddosbarth a rhannu syniadau newydd gydag ymarferwyr

A3 cael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau mewn addysg sy'n effeithio ar leoliadau

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

A4 ddarparu 10% o amser athrawon ymgynghorol ar gyfer pob lleoliad a sicrhau bod athrawon ymgynghorol yn ymweld â lleoliadau yn rheolaidd

A5 gwneud yn siŵr bod lleoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn cael cymorth a hyfforddiant yn yr iaith y maent yn gweithredu ynddi

A6 monitro gwaith athrawon ymgynghorol a sicrhau bod eu hanghenion hyfforddi yn cael eu nodi a'u bodloni

A7 gweithio gyda'i gilydd a gyda sefydliadau gwirfoddol i sicrhau bod lleoliadau'n cael cymorth cynhwysfawr a chysylltiedig, yn enwedig mewn perthynas ag anghenion dysgu ychwanegol a diogelu

A8 dwyn sefydliadau gwirfoddol a ariennir i gyfrif am ansawdd eu cyngor a'u harweiniad

A9 sicrhau bod cynifer o ymarferwyr nas cynhelir ag y bo modd yn gallu mynychu hyfforddiant

A10 ystyried penodi athrawon ymgynghorol am gyfnod penodol i adfywio'r gwasanaeth y gallant ei gynnig

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A11 ystyried clustnodi cyllid i wneud yn siŵr bod bob lleoliad yn cael 10% o gymorth gan athro cymwys a hyfforddiant yn ychwanegol i hyn

A12 creu rhwydwaith i athrawon ymgynghorol rannu gwybodaeth ac arfer orau

# Teitl: Arfer orau mewn addysgu a dysgu yn y celfyddydau creadigol yng nghyfnod allweddol 2

## Prif ganfyddiadau

### Safonau yn y celfyddydau creadigol

1 Yn y rhan fwyaf o ysgolion arfer orau yr ymwelwyd â nhw, mae safonau'n dda o leiaf mewn dwy neu fwy o ffurfiau'r celfyddydau creadigol (celf a dylunio, dawns, drama a cherddoriaeth). Mewn lleiafrif o'r ysgolion hyn, mae safonau yn y naill neu'r llall o ffurfiau'r celfyddydau creadigol ymhell uwchlaw hynny a ddisgwylir. Fodd bynnag, anaml y bydd safonau yn uchel ym mhob un o'r pedair celfyddyd greadigol mewn unrhyw un ysgol.

2 Mae safonau lles disgyblion ym mron pob un o'r ysgolion arfer orau yr ymwelwyd â nhw yn dda neu'n rhagorol. Dywed disgyblion a staff yn yr ysgolion hyn fod y celfyddydau creadigol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar wella lles disgyblion.

3 Mae tystiolaeth dda gan lawer o ysgolion o effaith y celfyddydau creadigol o ran gwella safonau llefaredd disgyblion. Y rheswm am hyn yn rhannol yw bod ymgysylltiad buddiol â'r celfyddydau creadigol yn rhoi profiadau cyffrous i ddisgyblion siarad amdanynt. Yn aml, mae'r celfyddydau yn darparu cyd-destun ysgogol i ddisgyblion ei ddefnyddio ac i ddatblygu'u medrau llythrennedd, ond nid oes digon o dystiolaeth i ddangos bod y celfyddydau yn gwella perfformiad disgyblion yn uniongyrchol mewn darllen ac ysgrifennu.

### Darpariaeth ar gyfer y celfyddydau creadigol

4 At ei gilydd, mae ansawdd y cwricwlwm ar gyfer y celfyddydau creadigol yn dibynnu gormod ar siawns yn hytrach nag ar gynllunio cadarn o ran y cwricwlwm. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r ddarpariaeth ar gyfer y celfyddydau creadigol yn dibynnu gormod ar ba un a oes athro brwdfrydig ar y staff sy'n meddu ar fedrau a gwybodaeth arbenigol. Er bod hyn yn aml yn sicrhau safonau uchel mewn un maes o'r celfyddydau creadigol, nid yw'n sicrhau safonau uchel ym mhob maes yn aml.

5 Gwelir y safonau gorau ymhlith disgyblion pan fydd eu hathrawon yn artistiaid creadigol gwybodus a hyderus, yn ogystal ag ymarferwyr da yn yr ystafell ddosbarth. Mae llawer o athrawon nad ydynt yn arbenigwyr yn brin o'r wybodaeth, y medrau a'r hyder i gyflwyno'r celfyddydau creadigol i'r lefel uchaf, yn enwedig erbyn Blwyddyn 6. Nid oes digon o hyfforddiant a chymorth ar gael i helpu athrawon i ddatblygu'u haddysgu yn y celfyddydau creadigol.

6 Mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae'r cynllunio ar gyfer y celfyddydau creadigol yn rhoi ystyriaeth dda i'r hyn y gall disgyblion eisoes ei wneud i sicrhau bod disgyblion yn datblygu'u medrau yn gynyddol. Mewn ychydig o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, er bod cynlluniau athrawon yn darparu ehangder priodol o brofiadau ar draws y celfyddydau creadigol yn gyffredinol, nid yw'r profiadau yn adeiladu ar fedrau presennol disgyblion yn ddigon da. O ganlyniad, mae disgyblion yn cwblhau gweithgareddau nad ydynt yn gofyn digon nac yn cynnig her.

7 Yn y gwersi mwyaf llwyddiannus, mae gwybodaeth bynciol drwyadl a chynhwysfawr gan athrawon, a defnyddiant y wybodaeth hon i osod disgwyliadau uchel i ddisgyblion. Maent yn addysgu gydag egni, rhediad da a brwdfrydedd, gan wybod pan fydd yn briodol ymyrryd neu herio, ac nid oes arnynt ofn caniatáu amser i ddisgyblion gyfnerthu eu dysgu. Mae athrawon yn annog disgyblion i wneud eu penderfyniadau eu hunain ac i gymryd risgiau, fel eu bod weithiau yn dysgu o'u camgymeriadau. Defnyddiant ystod eang o adnoddau sydd wedi'u dewis yn dda, yn cynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Lle mae'r addysgu yn llai llwyddiannus, nid yw gweithgareddau cynlluniedig yn herio disgyblion yn ddigon da, yn enwedig y disgyblion mwy abl. Yn y gwersi gwannach hyn yn aml, mae athrawon yn cyfarwyddo ac yn cyfyngu'r dysgu gormod, ac mae ar ddisgyblion ofn arbrofi rhag iddynt gael pethau'n anghywir.

**Arweinyddiaeth a'r celfyddydau creadigol**

8 Yn yr ysgolion arfer orau yr ymwelwyd â nhw, mae uwch arweinwyr yn rhannu angerdd a gweledigaeth ar gyfer y celfyddydau creadigol. Credant fod y celfyddydau creadigol yn ysbrydoli, yn ysgogi ac yn cymell disgyblion i feddwl â dychymyg, i ddyfalbarhau ac ymateb yn gadarnhaol i heriau. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn dod o hyd i ffyrdd llawn dychymyg i gynnal proffil uchel ar gyfer y celfyddydau creadigol, er gwaethaf cyfyngiadau'r cwricwlwm cenedlaethol a phwysau ar adnoddau ariannol. Ym mron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae arweinwyr yn nodi ei bod yn bosibl addysgu'r celfyddydau creadigol yn dda o fewn y cwricwlwm cynradd. Fodd bynnag, mewn tua hanner yr ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt, mae arweinwyr wedi lleihau'r amser a neilltuir i'r celfyddydau creadigol yn ddiweddar. Mewn llawer o achosion, mae hyn oherwydd eu bod yn credu bod neilltuo adnoddau i'r celfyddydau yn tynnu oddi wrth wella deilliannau mesuradwy mewn llythrennedd a rhifedd.

9 Mewn llawer o'r ysgolion, mae arweinwyr pwnc yn darparu cynlluniau cynhwysfawr i gynorthwyo cydweithwyr i gyflwyno gwersi yn y celfyddydau creadigol. Mae'r cynlluniau gwaith hyn yn aml yn talu sylw da i ehanger o brofiadau creadigol difyr, ond yn yr enghreifftiau gwannach, nid yw'r cynlluniau yn talu digon o sylw i ddatblygu medrau disgyblion yn gynyddol. Yn benodol, nid yw llawer o gynlluniau gwaith yn cyfeirio at y deunyddiau sy'n dangos y safonau disgwyliedig yn y celfyddydau creadigol. Mae arweinwyr pwnc ar gyfer y celfyddydau creadigol yn aml yn monitro'r ddarpariaeth yn eu pynciau yn ofalus ac yn cynhyrchu adroddiadau blynyddol ar gyfer llywodraethwyr ac uwch arweinwyr. Er bod monitro yn arfarnu ac yn adrodd ar ymgysylltiad a chyfranogiad disgyblion , yn rhy aml nid yw'n arfarnu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni nac yn dweud sut y gellid eu gwella.

10 Mae ychydig iawn o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn rhannu arfer orau yn y celfyddydau creadigol ac yn cydgyfrannu adnoddau. Yn aml, mae'r ysgolion hyn yn darparu gwersi enghreifftiol i ysgolion eraill eu harsylwi, ac maent yn cynnal neu'n cyflwyno sesiynau hyfforddi i gydweithwyr o'u hysgol eu hunain ac ysgolion eraill. Fod bynnag, mae gormod o ysgolion yn gweithio ar eu pennau'u hunain ac nid ydynt yn elwa ar weithio gydag ysgolion eraill.

11 Mae bron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw neu y gwnaed arolwg ohonynt yn cynnig gwersi cerdd offerynnol, er mai dim ond ychydig iawn o ddisgyblion sy'n manteisio ar y gwersi mewn rhyw chwarter o'r ysgolion. Nid yw tua hanner yr

ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn codi tâl ar ddisgyblion am wersi offerynnol, ond mewn ychydig iawn o ysgolion disgwylir i bob disgybl dalu cost lawn hyfforddiant offerynnol. Yn yr ysgolion hyn, nid yw disgyblion o deuluoedd tlotach yn dewis dysgu chwarae offeryn cerdd, am fod y gost yn rhy uchel.

12 Caiff ymweliadau â safleoedd treftadaeth a theatrau effaith sylweddol iawn ar ddysgu disgyblion. Yn yr arfer fwyaf effeithiol, mae athrawon yn cynllunio ac yn paratoi'n ofalus ar gyfer yr ymweliadau fel bod y disgyblion yn elwa gymaint â phosibl ar y profiad, ac maent yn dilyn i fyny ar ddysgu disgyblion yn gyflym pan fyddant yn ôl yn yr ysgol. Mae bron pob un o'r ysgolion yn yr arolwg yn mynd â disgyblion ar deithiau ac ymweliadau, neu'n derbyn ymwelwyr i'r ysgol, yn gysylltiedig â'r celfyddydau creadigol. Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion arfer orau, mae arweinwyr yn sicrhau bod pob disgybl, gan gynnwys y rhai o deuluoedd tlotach, yn cymryd rhan mewn teithiau ac ymweliadau drwy leihau neu hepgor costau. Fodd bynnag, mae ymatebion o ysgolion a gymerodd ran yn yr arolwg yn dangos nad yw hyn yn digwydd bob tro.

## Argymhellion

Er mwyn gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau yn y celfyddydau creadigol:

**Dylai ysgolion:**

A1 Gynllunio dilyniant o gyfleoedd dysgu i ddisgyblion er mwyn iddynt gael profiad o ehangder y celfyddydau creadigol a datblygu'u medrau creadigol wrth iddynt symud drwy'r ysgol

A2 Cefnogi athrawon i ddatblygu'r medrau, y wybodaeth a'r hyder i addysgu'r celfyddydau creadigol yn dda

A3 Monitro cyflawniadau disgyblion yn y celfyddydau creadigol

A4 Gweithio'n agosach ag ysgolion eraill i rannu arfer orau ac adnoddau yn y celfyddydau creadigol

**Dylai awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol:**

A5 Gynnig cyfleoedd i athrawon ddatblygu'u medrau a'u hyder wrth addysgu un neu fwy o bynciau'r celfyddydau creadigol

A6 Darparu hyfforddiant i ysgolion i'w helpu i nodi, datblygu a rhannu arfer orau mewn addysgu ac asesu yn y celfyddydau creadigol

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A7 Barhau i gynorthwyo ysgolion i wneud defnydd o gyllid penodedig i alluogi disgyblion o deuluoedd tlotach i ddysgu chwarae offerynnau cerdd ac i gymryd rhan lawn yn y celfyddydau creadigol

A8 Cyhoeddi deunyddiau sy'n dangos y safonau disgwyliedig yn y celfyddydau creadigol

## Teitl: Pa mor dda y mae sefydlaidau addysg bellach yn rheoli cwynion gan ddysgwyr?

### Prif ganfyddiadau

1 At ei gilydd, mae gan bob sefydliad bolisi a gweithdrefnau ar waith i gynorthwyo dysgwr wrth wneud cwyn. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r rhain yn glir a chynhwysfawr yn gyffredinol. Mae sefydliadau yn darparu gwybodaeth am sut i gwyno yn uniongyrchol i fyfyrwyr adeg ymsefydlu, a thrwy gyhoeddiadau'r sefydliadau a'u gwefannau. Fodd bynnag, dim ond ar 66% o wefannau sefydliadau y gwnaeth arolygwyr ganfod y wybodaeth hon.

2 Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau yn trefnu bod eu polisi a'u gweithdrefnau ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw ychydig ohonynt yn gwneud hynny. Mae pob sefydliad yn adrodd y gall dysgwyr gyflwyno'u cwyn trwy gyfrwng y Gymraeg.

3 Er nad yw llawer o ddysgwyr yn gyfarwydd â'r manylion yn y polisi, ac mae'n ddigon hawdd deall hynny, maent yn gwybod y gallant gwyno i'w tiwtor cwrs neu gynrychiolydd dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddysgwyr yn ymwybodol bod gweithdrefn apelio, a'u bod yn gallu apelio os nad ydynt yn fodlon â chanlyniad eu cwyn. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo bod eu tiwtor personol a/neu diwtor cwrs yn eu cefnogi'n dda. Maent yn teimlo eu bod yn gwrando arnynt, a bod y sefydliad yn cymryd eu materion o ddifrif.

4 Ym mhob sefydliad, roedd diffyg eglurder yn y diffiniadau a ddefnyddiwyd ar gyfer beth sy'n gwneud cwyn. Nid yw'r un diffiniad yn gwahaniaethu'n glir rhwng cwynion difrifol a chwynion nad ydynt yn rhai difrifol. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd nodi pa faterion y dylai staff sefydliad neu fyfyrwyr eu dwyn yn eu blaen yn gyflym i fod yn gŵyn fwy ffurfiol. Mae'r diffyg eglurder yn y diffiniad yn golygu hefyd nad yw'n glir ynglŷn â pha ganlyniad cwyn y gall achwynydd apelio'n ddilys yn ei erbyn, os yw'r sefydliad yn methu trin y gŵyn yn ddigon difrifol.

5 Mewn llawer o achosion, mae'r gwahaniaeth rhwng cwynion anffurfiol a ffurfiol yn seiliedig ar y llwybr a gymerir gan yr achwynydd ac nid ar natur neu ddifrifoldeb y gŵyn ei hun. Yn y lle cyntaf, mae'r rhan fwyaf o'r gweithdrefnau, os nad y cyfan ohonynt, yn cyfeirio'r achwynydd yn briodol at y llwybr anffurfiol. Fodd bynnag, gan nad yw'r rhan fwyaf o sefydliadau yn cofnodi cwynion anffurfiol yn gyson, mae hyn yn golygu y gall materion difrifol gael eu colli neu'u celu, ac efallai na chaiff cwynion ynghylch gwasanaeth neu ddarpariaeth o ansawdd gwael, yr eir i'r afael â nhw'n anffurfiol, eu nodi neu'u hasesu gan reolwyr.

6 Dywed pob sefydliad eu bod yn croesawu cwynion gan ddysgwyr a'u bod yn defnyddio'r wybodaeth a gynhyrchir gan y rhain mewn adroddiadau rheoli. Fodd bynnag, nid yw sefydliadau'n defnyddio'r wybodaeth yn ddigon da i lywio gwelliant. Mae'r rhan fwyaf o adroddiadau yn canolbwyntio gormod ar gyfrif nifer y cwynion yn hytrach nag archwilio beth all fod y tu ôl i'r cwynion neu chwilio am dueddiadau neu batrymau.

7 Mae systemau olrhain defnyddiol ar waith gan bob sefydliad i reoli cwynion ffurfiol, ac mae'r rhain yn monitro'r cynnydd a'r canlyniadau yn y pen draw. Fodd bynnag, nid oes gan yr un o'r sefydliadau y gwnaed arolwg ohonynt system sy'n gwneud yn siŵr yr ymdrinnir â phob cwyn i safon gyson, yn enwedig lle caiff y gwaith o ymchwilio i'r gŵyn ei ddirprwyo i reolwr ar gampws arall yn y sefydliad.

8 Mae sefydliadau yn defnyddio'u systemau cynrychiolwyr dysgwyr yn dda i gasglu barnau am faterion gan ddysgwyr, gan gynnwys cwynion. Fodd bynnag, nid ydynt yn manteisio i'r eithaf ar y systemau hyn i arfarnu cadernid eu polisi a'u gweithdrefnau wrth fynd i'r afael â chwynion dysgwyr. Yn gyffredinol, nid yw'r systemau hyn, ac yn benodol arolwg Llywodraeth Cymru, Llais y Dysgwr Cymru, yn ddigon da i arfarnu profiad dysgwr a'i hyder yn y system gŵynion

9 Nid oes digon o hyfforddiant i staff a chynrychiolwyr dysgwyr sefydliad i sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth ddigonol am sut i fynd i'r afael â chwynion gan ddefnyddio'r gweithdrefnau cywir.

10 Mae tua hanner y sefydliadau yn adrodd y byddent yn croesawu penodiad corff apeliadau allanol. Fodd bynnag, mae llawer o sefydliadau, gan gynnwys cyfran o'r rheini a fyddai'n croesawu corff apeliadau, yn cwestiynu p'un a fyddai corff o'r fath yn ychwanegu unrhyw werth ychwanegol. Yn gyffredinol, mae myfyrwyr yn 'ymddiried' yn y sefydliadau i ddatrys unrhyw faterion ac maent o'r farn mai defnydd cyfyngedig fyddai i gorff apeliadau efallai.

**Argymhellion**

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A1 gyhoeddi arweiniad pellach i helpu sefydliadau ddatblygu eu gweithdrefnau cwynion dysgwyr, gan gynnwys diffiniadau o fathau arbennig o gŵynion

A2 sicrhau bod yr arolwg blynyddol Llais y Dysgwr Cymru yn cipio profiadau dysgwyr o wneud cwynion, a'u boddhad â'r broses, yn ddigonol

A3 gweithio gyda'r sector i ystyried ymarferoldeb corff apeliadau allanol ar gyfer dysgwyr AB ôl-16 yng Nghymru, gyda phwerau i adolygu cwynion myfyrwyr a'u canlyniadau

**Dylai sefydliadau:**

A4 ddwyn yn eu blaen y materion a nodwyd gan UCM yn eu hadroddiad 2011 ar gŵynion myfyrwyr

A5 gwneud yn siŵr fod yr holl ddeunyddiau am sut i wneud cwyn ar gael yn rhwydd drwy'r adrannau o'u gwefannau ar gyfer y cyhoedd, a'u bod hefyd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg

A6 mynnu bod uwch reolwyr yn gwirio pa mor gyson a thrylwyr y cynhelir ymchwiliadau i gŵynion gan bob un o'u staff, ac ar draws pob safle campws

A7 hyfforddi pob aelod o staff a chynrychiolwyr dysgwyr i reoli gweithdrefnau cwynion y sefydliad

A8 gwneud yn siŵr bod mecanweithiau yn eu lle i wahaniaethu rhwng cwynion lefel isel a chwynion mwy difrifol, ac i gofnodi pob cwyn, p’un a gafodd ei gwneud yn llafar neu’n ysgrifenedig

A9 defnyddio’r holl dystiolaeth sydd ar gael, gan gynnwys adborth dysgwyr, i lywio’r dadansoddiad manwl o ansawdd y polisi a’r gweithdrefnau cwynion, yn ogystal â’r patrymau, tueddiadau a rhesymau sylfaenol ar gyfer cwynion er mwyn llywio systemau ansawdd a chynllunio strategol

# Teitl: Gwella ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol

## Prif ganfyddiadau

1 Er na all y gwelliannau cyffredinol yn safonau cyrhaeddiad disgyblion dros y tair blynedd ddiwethaf gael eu priodoli'n gyfan gwbl i ddatblygu consortia rhanbarthol, mae'r data cyhoeddedig yn adlewyrchu gwelliant graddol yng nghyrhaeddiad disgyblion ar draws pob un o'r pedwar rhanbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn cyflawni ar lefelau tebyg ar draws pob rhanbarth ond yng nghyfnod allweddol 4, mae mwy o amrywiad mewn lefelau deilliannau disgyblion. Mae perfformiad yn gyson uwch yn GWE ac ERW nag ydyw yn CCD a GCA, ac mae lefelau mwy o amddifadedd cymdeithasol yn y ddau ranbarth olaf.

2 Mae deilliannau arolygu ysgolion yn eithaf tebyg ar draws y pedwar rhanbarth, er bod cyfran cryn dipyn yn uwch o ysgolion wedi achosi pryder yn GCA yn y blynyddoedd diwethaf.

3 Mae'r consortia rhanbarthol wedi bod yn araf yn rhoi trefniadau llywodraethu ar waith yn llawn yn unol â Model Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gweithio Rhanbarthol. Cafodd pob un o'r consortia rhanbarthol drafferthion yn llenwi swyddi uwch, ac fe gafodd hyn effaith niweidiol ar eu gallu i gyfeirio a rheoli gwaith ac mae'n amlygu diffyg dull strategol cenedlaethol o ddatblygu uwch arweinwyr. Mae'n rhy gynnar i farnu effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu ac uwch arweinyddiaeth a rheolaeth y consortia.

4 Mae'r holl gynlluniau busnes a baratowyd gan y consortia ar gyfer 2014-2015 yn canolbwyntio'n briodol ar y meysydd pwysicaf i'w gwella. Fodd bynnag, mae'r holl gynlluniau'n cynnwys gwendidau pwysig. Yn benodol, nid yw'r cynlluniau'n nodi'n ddigon da pa effaith a ddisgwylir o'r camau a gymerwyd a sut a phryd y bydd hyn yn cael ei fesur. Mae hyn yn arbennig o wir am yr adrannau sy'n amlinellu'r modd y mae'r consortia yn teilwra eu gwaith i fodloni anghenion awdurdodau lleol unigol. Nid oes gan unrhyw un o'r consortia gynllun tymor canolig ar waith i arwain dull strategol o wella ysgolion.

5 Er bod enghreifftiau o graffu trylwyr gan aelodau etholedig ynghylch sut mae consortiwm rhanbarthol yn gweithio gydag ysgolion unigol ar lefel awdurdod lleol, nid yw pwyllgorau craffu yn dwyn eu huwch swyddogion a'u cynrychiolwyr i gyfrif yn ddigon da am eu rôl o ran sicrhau bod y consortiwm yn bodloni anghenion ysgolion yr awdurdod. Yn ychwanegol, nid oes dull ar y cyd i graffu ar effeithiolrwydd y consortiwm yn gyffredinol mewn unrhyw ranbarth.

6 Mae'r adroddiadau hunanarfarnu a luniwyd gan y consortia rhanbarthol yn rhy gadarnhaol ar y cyfan. Mae'r adroddiadau hyn yn nodi cryfderau yn fwy cywir ac argyhoeddiadol na diffygion.

7 Mae'r rhan fwyaf o'r consortia rhanbarthol wedi ymgysylltu'n effeithiol â swyddogion awdurdodau lleol, arweinwyr ysgolion ac undebau llafur i ddatblygu eu blaenoriaethau a'u polisïau rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion. Fodd bynnag, nid yw'r un o'r consortia wedi ymgysylltu ddigon ag awdurdodau esgobaethol.

8 Mae'r consortia rhanbarthol wedi cryfhau eu trefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer ymgynghorwyr her, yn enwedig er Medi 2014, ac mae mwy o gysondeb yng ngwaith ymgynghorwyr her o ganlyniad. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau yn cael eu rhoi ar waith yn ddigon trylwyr bob amser ac nid yw adroddiadau cyn-arolygiad yn cyd-fynd yn ddigon agos â chanlyniad arolygiadau bob amser.

9 Yn GCA a CCD, mae mwy na dwywaith yn fwy o ysgolion yn cymryd rhan yn rhaglen Her Ysgolion Cymru na'r ddau ranbarth arall. Yn y rhanbarthau hyn, mae'r consortia yn aneglur ynglŷn â'u perthynas waith gyda'r ysgolion yn y rhaglen. Mae'r consortia hefyd yn aneglur ynghylch sut byddant yn arfarnu eu rôl benodol mewn gwelliannau yn yr ysgolion hyn a goblygiadau hyn ar gyfer unrhyw arfarniad ehangach o wella ysgolion ledled Cymru.

10 Nid oes gan yr un o'r consortia rhanbarthol ddull strategol cydlynus o leihau effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad. Nid yw'r consortia rhanbarthol wedi monitro pa mor dda y mae ysgolion yn defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn ddigon agos.

11 Mae pob un o'r consortia wedi rhoi trefniadau addas ar waith gydag awdurdodau lleol ar gyfer rhannu gwybodaeth ddefnyddiol o lawer o feysydd gwasanaeth sy'n berthnasol i'w gwaith, fel anghenion dysgu ychwanegol, cynhwysiant cymdeithasol a lles, cyllid a chwynion. Fodd bynnag, nid oes gan yr un o'r consortia system wedi'i datblygu'n llawn ac a ddefnyddir yn gyson i gasglu, dadansoddi a rhannu gwybodaeth am gynnydd disgyblion ac ysgolion.

12 Yn gyffredinol, mae consortia rhanbarthol yn gwybod pa mor dda y mae llawer o'u hysgolion yn perfformio ar hyn o bryd trwy waith ymgynghorwyr her, ac fe gefnogir hyn trwy eu dadansoddiad o ddata cyrhaeddiad. Dywed y rhan fwyaf o benaethiaid a chadeiryddion cyrff llywodraethol fod ymgynghorwyr her yn craffu'n fanwl ac yn deg ar berfformiad eu hysgol.

13 Er bod ymgynghorwyr her yn gwybod ar y cyfan beth mae data asesu yn ei ddangos am berfformiad ysgol, nid yw hyn bob amser yn golygu eu bod yn adnabod yr ysgol yn ddigon da. Nid yw ymgynghorwyr her bob amser yn ddigon diagnostig o ran deall pam mae ysgol yn perfformio'n dda neu ddim. Nid yw ymgynghorwyr her bob amser yn cymryd rhan ddigonol mewn safoni asesiadau athrawon ac maent yn llai effeithiol yn arfarnu addysgu ac arweinyddiaeth na safonau. Fodd bynnag, nid yw gwendidau yng ngwaith ymgynghorwyr her mor gyffredin ag yr oeddent pan ddechreuodd y consortia ffurfioli yn 2012.

14 At ei gilydd, mae consortia rhanbarthol yn well yn herio ysgolion ynglŷn â'u perfformiad presennol nag ydynt yn eu cefnogi i wella. Mae gan bob un o'r consortia ffocws priodol cryf ar gefnogi gwelliant mewn llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, mae cymorth ar gyfer ysgolion mewn llawer o feysydd dysgu eraill, fel pynciau nad ydynt yn rhai craidd, naill ai'n wan, yn anghyson neu nid ydynt ar gael. Yn GCA a CCD, nid oes digon o gymorth ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r consortia yn datblygu strategaethau i'w gwneud yn hwylus i ysgolion gefnogi ei gilydd, er mai dim ond CCD sy'n cynnwys pob ysgol yn ei strategaeth. Nid yw'r consortia yn monitro ac yn arfarnu'n ddigon da beth yw effaith eu cymorth i wella ysgolion, p'un a yw'r cymorth hwn yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol neu'i frocera neu p'un a yw'n gymorth o un ysgol i'r llall y maent yn ei hwyluso.

15 Mae consortia rhanbarthol fel arfer yn darparu gwybodaeth briodol ac amserol i awdurdodau lleol am ysgolion sy'n achosi pryder. Er bod awdurdodau lleol yn fwy parod i ddefnyddio eu pwerau ymyrraeth statudol, mae lleiafrif ohonynt yn amharod i ymyrryd o hyd, hyd yn oed pan fydd eu consortiwm rhanbarthol yn darparu mandad clir ar gyfer gweithredu. Wedi i awdurdod lleol gyhoeddi hysbysiad rhybudd statudol i wella i ysgol, mae'r consortiwm rhanbarthol fel arfer yn gweithio'n dda gyda'r ysgol a'r awdurdod lleol fel ei gilydd i gytuno ar gynllun addas a monitro cynnydd.

16 Rhoddodd staff Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru adborth llafar i'r consortia rhanbarthol ar ôl ymweliadau i gasglu tystiolaeth ar gyfer yr arolwg hwn. Mae'r consortia wedi ymateb yn gadarnhaol i'w hadborth ac maent eisoes wedi dechrau mynd i'r afael â llawer o'r materion a godwyd yn yr adroddiad.

**Argymhellion**

**Dylai consortia rhanbarthol:**

A1 Wella trefniadau rheoli perfformiad trwy:

- gynllunio ar gyfer y tymor canolig i sicrhau dull strategol o wella ysgolion
- sicrhau bod cynlluniau'n cynnwys camau gweithredu sy'n benodol a mesuradwy, gyda thargedau, costau a cherrig milltir priodol ar gyfer cyflawni
- cofnodi, rhannu a defnyddio data (o lefel disgybl i fyny) yn effeithlon ac yn effeithiol
- monitro cynnydd disgyblion ac ysgolion yn rheolaidd
- defnyddio dull mwy trylwyr o nodi risgiau a'u rheoli
- hunanarfarnu eu cryfderau a'u diffygion yn realistig
- rheoli perfformiad unigol eu staff yn dynn

A2 Sicrhau cysondeb gwell yn ansawdd arfarniadau ymgynghorwyr her o ysgolion, yn enwedig mewn perthynas ag addysgu ac arweinyddiaeth

A3 Datblygu strategaethau cliriach i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar ddeilliannau addysg a sicrhau bod yr holl gamau gweithredu yn gydlynus i'r perwyl hwn

A4 Gwella ansawdd ac ystod y cymorth ar gyfer ysgolion, ac yn benodol:

- datblygu strategaethau cliriach ar gyfer gwneud y mwyaf o botensial cymorth o un ysgol i'r llall
- darparu neu frocera cymorth gwell ar gyfer addysgu a dysgu mewn meysydd pwnc nad ydynt yn rhai craidd

A5 Cynnwys awdurdodau esgobaethol yn effeithiol wrth gynllunio ac arfarnu gwasanaethau rhanbarthol yn strategol

**Dylai awdurdodau lleol:**

A6 Gefnogi eu consortiwm rhanbarthol i ddatblygu cynlluniau busnes tymor canolig a sicrhau bod yr holl gynlluniau'n ystyried anghenion eu hysgolion lleol

A7 Datblygu perthnasoedd gweithio ffurfiol rhwng pwyllgorau craffu yn eu consortiwm er mwyn craffu ar waith ac effaith eu consortiwm rhanbarthol

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A8 Wella'i strategaeth i ddatblygu uwch arweinwyr a rheolwyr ar gyfer addysg ar lefel awdurdod lleol a chonsortia rhanbarthol

A9 Cydweithio'n fwy â chonsortia ac awdurdodau lleol i gytuno ar gynlluniau busnes tymor byr a thymor canolig a lleihau ceisiadau i newid ac ychwanegu at gynlluniau yng nghanol blwyddyn

A10 Sicrhau bod categoreiddio ysgolion yn cael ei safoni'n drylwyr ar draws y consortia

A11 Datblygu dealltwriaeth ar y cyd rhwng athrawon, ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru am ddiben targedau cyrhaeddiad a'r defnydd a wneir ohonynt

A12 Ymgysylltu'n fwy effeithiol ag awdurdodau esgobaethol i ddatblygu eu strategaeth ar gyfer gwella ysgolion

A13 Sicrhau bod consortia, awdurdodau lleol ac awdurdodau esgobaethol yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau priodol ar gyfer ysgolion yn rhaglen Her Ysgolion Cymru

## Teitl: Arfer orau o ran datblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion

### Prif ganfyddiadau

1 Mewn ysgolion llwyddiannus, mae staff ar lefelau gwahanol yn dangos ymddygiadau arwain cadarn fel ymarferwyr ystafell ddosbarth, arweinwyr adrannau, arweinwyr mentrau ysgol gyfan, ac fel uwch reolwyr (‘arweinyddiaeth ddosbarthedig’). Mae’r ysgolion hyn yn datblygu medrau arwain pob un o’u staff fel rhan o’u datblygiad proffesiynol a datblygu gyrfa.

2 Mewn ysgolion lle ceir diwylliant cadarn o ddysgu proffesiynol, mae staff yn gweithio fel tîm i sicrhau bod disgyblion yn cyflawni’n dda. Un rhan bwysig o’r diwylliant hwn yw cyfathrebu clir rhwng arweinwyr a phob aelod o staff i sicrhau bod dealltwriaeth gyffredin ac iaith gytûn ynglŷn â dysgu a datblygiad proffesiynol.

3 Mae cynllunio olyniaeth ar bob lefel yn aml yn gryfder sylweddol mewn ysgolion lle ceir diwylliant cadarn o ddysgu proffesiynol. Yn yr ysgolion hyn, mae uwch arweinwyr yn arfarnu sefyllfa staffio’r ysgol ac yn ceisio rhagweld swyddi gweigion posibl yn y dyfodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar lefel uwch arweinwyr ac arweinwyr canol, ac mae’n galluogi llenwi swyddi’n fewnol os bydd angen lle mae swyddi gweigion yn codi. Un strategaeth effeithiol yw trefnu i staff profiadol drosglwyddo’u gwybodaeth i staff llai profiadol cyn iddynt ymddeol neu newid swyddi, er enghraifft trwy gysgodi a mentora.

4 Mae’r arweinwyr ysgol mwyaf llwyddiannus yn defnyddio strategaethau ar gyfer nodi a meithrin potensial arwain pob un o’u staff, yn enwedig yn gynnar yn eu gyrfaoedd, ac ar gyfer eu cefnogi i ddatblygu’r medrau sydd eu hangen arnynt i ddod yn arweinwyr ysgol y dyfodol. Mae’r arweinwyr hyn yn ymgymryd â dadansoddiadau manwl o’r wybodaeth, y medrau a’r priodweddau sy’n ofynnol ar gyfer pob rôl arwain yn eu hysgol. Defnyddiant y wybodaeth hon i nodi staff sydd â photensial i arwain.

5 Lle nad yw ysgolion yn llwyddiannus yn datblygu diwylliant arweinyddiaeth cadarn, nid yw penaethiaid yn canolbwyntio’n ddigon da ar wella ansawdd addysgu, ac nid ydynt yn darparu gweithgareddau datblygiad proffesiynol priodol i helpu staff adeiladu ar eu medrau a’u gwybodaeth bresennol. Yn aml, mae llawer o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi bod yn rhy araf yn nodi hyn fel gwendid mewn ysgolion ac nid ydynt wedi darparu arweiniad effeithiol i benaethiaid i’w helpu i wella yn y meysydd pwysig hyn.

6 Mae gan yr ysgolion mwyaf effeithiol weithdrefnau rheoli perfformiad ar waith lle mae gan uwch arweinwyr amcanion sy’n ymwneud yn benodol â datblygu staff fel arweinwyr posibl. Yn yr ysgolion hyn, mae’r llywodraethwyr yn herio arweinwyr ac yn eu dwyn i gyfrif am ddatblygu arweinyddiaeth.

7 Mae bron pob un o’r uwch arweinwyr yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn gwybod am y safonau arweinyddiaeth ac yn eu deall. Fodd bynnag, mae llai na hanner yn defnyddio’r safonau yn rheolaidd i arfarnu eu medrau arwain eu hunain neu fel ffocws ar gyfer datblygu arweinyddiaeth pobl eraill. Dim ond ychydig iawn o uwch arweinwyr sy’n defnyddio’r adolygiad arweinyddiaeth unigol i arfarnu eu medrau

arweinyddiaeth eu hunain. Yn yr ychydig o ysgolion sy'n eu defnyddio, mae'r safonau arwain yn ffurfio'r sail ar gyfer datblygu arweinyddiaeth a rheoli perfformiad effeithiol.

8 Mae'r safonau diwygiedig yn rhoi gwedd gliriach ar y disgwyliadau ar gyfer cynorthwywyr addysgu lefel uwch (CALUau) ac athrawon, ond nid ydynt yn nodi'n benodol y camau y mae angen i athrawon a CALUau eu cymryd i ddatblygu'n broffesiynol, gwneud cynnydd da yn eu gyrfa a dod yn arweinwyr posibl y dyfodol.

9 Mae uwch arweinwyr llwyddiannus yn sicrhau eu bod yn darparu cyfleoedd dysgu a hyfforddiant priodol i staff i gefnogi datblygu'u gyrfa. Mae llawer yn darparu pecyn o weithgareddau dysgu proffesiynol sy'n cynnwys gweithgareddau penodol i ddatblygu medrau arwain. Mae hyn yn gweithio'n dda pan fydd y pecyn yn cael ei gynllunio'n ofalus i fodloni anghenion datblygu unigolion. Fel arfer, mae'r pecyn hyfforddi yn cynnwys dewis o gyfleoedd datblygiad proffesiynol yn yr ysgol a rhywfaint o hyfforddiant allanol.

10 Mae arweinwyr yn yr ysgolion effeithiol yr ymwelwyd â nhw yn defnyddio arbenigedd yn eu hysgolion ac o ysgolion eraill i wella dysgu proffesiynol ar gyfer staff. Maent yn annog eu staff i fanteisio ar swyddi arwain gweithredol neu dros dro yn fewnol ac i ymgymryd â secondiadau mewn mannau eraill i wella eu profiad arwain.

11 Ni fu digon o gymorth ar lefel genedlaethol a lleol i ddatblygu medrau arwain darpar uwch arweinwyr ac uwch arweinwyr profiadol. Nid oes digon o gyfleoedd i ddarpar arweinwyr ysgol ac arweinwyr ysgol profiadol ddatblygu'u medrau mewn meysydd allweddol fel gwella addysgu, rhoi mentrau newydd ar waith, herio tanberfformio, a deall materion adnoddau dynol.

12 Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae penaethiaid sy'n newydd i'w swydd wedi cael eu mentora'n dda gan bennaeth profiadol, effeithiol yn yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir bob amser yn genedlaethol. Mewn ychydig o awdurdodau lleol, nid yw penaethiaid, mewn ysgolion heriol yn aml, yn cael eu cefnogi'n ddigon da.

13 Mae prinder arbennig o ddarpariaeth hyfforddiant i arweinwyr trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Argymhellion**

**Dylai arweinwyr ysgol:**

A1 ddatblygu diwylliant cadarn o ddysgu proffesiynol ar gyfer pob aelod o staff ar bobl lefel yn eu hysgol

A2 gwella cynllunio olyniaeth a throsglwyddo gwybodaeth gorfforaethol

A3 nodi potensial arwain staff yn gynnar a chefnogi datblygu'u gyrfa

A4 sicrhau bod strwythurau rheoli perfformiad yn talu sylw priodol i ddatblygu arweinwyr posibl y dyfodol

A5 defnyddio'r safonau arweinyddiaeth fel y sail ar gyfer arfarnu'u medrau arwain eu hunain ac ar gyfer datblygu staff fel arweinwyr y dyfodol

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

A6 ddarparu arweiniad i arweinwyr ysgol profiadol ar ddatblygu'u staff fel arweinwyr y dyfodol

A7 darparu cyfleoedd i uwch arweinwyr ddatblygu'u medrau mewn meysydd allweddol fel herio tanberfformiad, defnyddio strategaethau i wella addysgu, a rhoi mentrau newydd ar waith

A8 darparu neu gael hyfforddiant cyfrwng Cymraeg neu Saesneg effeithiol i arweinwyr ar bob lefel

A9 hyrwyddo'r defnydd o'r safonau arweinyddiaeth a'r adolygiad arweinyddiaeth unigol i'r holl arweinwyr ysgol

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A10 weithredu strategaeth ar gyfer datblygu medrau arwain i ddarpar uwch arweinwyr ac uwch arweinwyr profiadol

A11 cynnwys datblygu medrau arwain fel trywydd yn y safonau proffesiynol ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch, athrawon ac arweinwyr canol

# Teitl: Arfer effeithiol o ran gwella presenoldeb mewn ysgolion cynradd

## Prif ganfyddiadau

1 Mae ysgolion sy'n cynnal presenoldeb da neu'n gwella presenoldeb yn aml yn defnyddio strategaethau cyffredin. Yn yr ysgolion hyn, y sylw cyson a roddir i bresenoldeb a'r strategaethau amrywiol a ddefnyddir sydd wedi arwain at bresenoldeb da ac nid rhoi un strategaeth benodol ar waith. Mae ysgolion sydd â phresenoldeb cyson dda neu well:

- yn creu amgylchedd sy'n croesawu disgyblion ac yn cynllunio cyfleoedd dysgu sy'n eu hannog i fynychu
- yn meddu ar bolisi presenoldeb clir y mae disgyblion, rhieni a staff yn ei ddeall
- yn codi proffil presenoldeb ymhlith disgyblion a rhieni, fel eu bod yn deall effaith presenoldeb gwael ar waith disgyblion a'u cyfleoedd mewn bywyd
- yn rhoi neges gref i rieni fod gan yr ysgol ddisgwyliad uchel o ran presenoldeb disgyblion, a'i bod yn ymateb yn gyflym ac yn gyson i absenoldeb
- yn deall y rhesymau dros absenoldeb disgyblion unigol ac yn darparu her a chymorth targedig i'r disgyblion hyn a'u teuluoedd
- yn cynnwys rhieni ym mywyd yr ysgol ac mewn strategaethau i wella presenoldeb
- wedi creu cysylltiadau cryf gyda gwasanaethau cymorth, gan gynnwys grwpiau cymunedol, gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth lles addysg, sy'n gallu cynorthwyo mewn ymgysylltu â theuluoedd sy'n agored i niwed, a'u cefnogi
- yn cynnwys staff sydd â chyfrifoldeb wedi'i ddiffinio'n glir ar gyfer monitro a gwella presenoldeb
- wedi rhoi system gyswllt diwrnod cyntaf a pharhaus ar waith
- yn defnyddio'r holl ddata sydd ar gael i nodi a gweithredu ar broblemau presenoldeb yn gyflym a chyson
- yn defnyddio gwobrau a chymhellion priodol i annog presenoldeb da
- yn cynnwys presenoldeb wrth gynllunio gwelliant ysgolion ac yn sicrhau bod strategaethau yn cael eu rhoi ar waith mewn modd amserol
- yn cynnwys uwch staff a chorff llywodraethol sy'n monitro ac yn arfarnu effaith strategaethau presenoldeb

## Argymhellion

**Dylai ysgolion:**

A1 roi'r strategaethau a nodwyd yn yr adroddiad hwn ar waith i wneud yn siŵr bod pob disgybl yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia:**

A2 hwyluso rhannu arfer orau rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol

A3 gwneud yn siŵr bod ymgynghorwyr her yn herio a chefnogi arweinwyr ysgol mewn perthynas â chymryd camau ar bresenoldeb disgyblion

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A4 roi cyhoeddusrwydd i'r gyfran ar 'Strategaethau i ysgolion wella presenoldeb a rheoli diffyg prydlondeb' yn y 'Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan'

## Teitl: Addysg heblaw yn yr ysgol: arolwg arfer dda

### Prif ganfyddiadau

**Partneriaethau strategol rhwng awdurdodau lleol, ysgolion prif ffrwd ac UCDau**

1 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd neu o ymddieithrio yn fwyaf effeithiol pan fydd awdurdodau lleol, ysgolion ac UCDau yn gweithio gyda'i gilydd i fodloni anghenion y disgyblion hyn a sicrhau eu bod yn aros mewn addysg amser llawn. Dwy enghraifft o hyn yw Cyngor Ceredigion a Chyngor Dinas Casnewydd. Mae gan yr awdurdodau lleol hyn strategaeth glir ar gyfer cefnogi ac ailintegreiddio a chontinwwm o ddarpariaeth i fodloni anghenion y disgyblion hyn. Mae gan UCDau a mathau eraill o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ran bwysig yn y continwwm hwn o ddarpariaeth. Yn yr arfer orau, mae gan y lleoliadau hyn brosesau cyfeirio sefydledig a meini prawf mynediad ac ymadael clir ac mae gan randdeiliaid ddealltwriaeth glir o rôl UCDau.

2 Pan gaiff disgyblion eu hailintegreiddio i ysgol yn llwyddiannus, mae gan ddisgyblion, rhieni, staff yr UCD a'r ysgol ddealltwriaeth glir mai ymyrraeth dargedig tymor byr yw lleoli disgybl mewn UCD. Fodd bynnag, i lawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4, nid yw dychwelyd i addysg prif ffrwd yn ddewis priodol.

**Arfer dda mewn UCDau**

3 Pan fydd awdurdodau lleol yn cydnabod pwysigrwydd UCDau, maent yn sicrhau bod ganddynt adnoddau da o ran staffio, adeiladau ac offer. Mae'r rhan fwyaf o'r UCDau yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg hwn yn cymryd rhan mewn mentrau awdurdod lleol ac yn manteisio ar y cyfleoedd datblygiad proffesiynol sydd ar gael i gydweithwyr mewn ysgolion prif ffrwd. Mae hyn yn eu galluogi i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau pwysig fel newidiadau i'r cwricwlwm a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Fodd bynnag, pan nad yw staff UCD yn cael y cyfleoedd hyn, maent yn teimlo eu bod ar wahân a heb gymorth. Ar draws y consortia rhanbarthol, nid oes trefniadau cyson i gynnwys UCDau mewn gweithgareddau cymorth a her.

4 Yn yr achosion gorau, mae'r UCD yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer addysgu disgyblion ag ymddygiad heriol. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio arbenigedd staff UCDau i roi cymorth i ddisgyblion unigol mewn ysgolion prif ffrwd yn ogystal â chyngor a hyfforddiant i staff prif ffrwd.

5 Mae defnyddio symudiadau rheoledig fel strategaeth i gadw disgyblion mewn addysg amser llawn yn amrywio o un awdurdod lleol i'r llall. Dim ond rhai awdurdodau lleol sydd â phanel symudiadau rheoledig sefydledig sy'n cynnwys staff awdurdod lleol, ysgol ac UCD.

6 Yn yr UCDau mwyaf effeithiol, mae athrawon â gofal yn arweinwyr a rheolwyr medrus, ac mae gan staff arbenigedd a phrofiad priodol mewn addysgu a dysgu yn ogystal â rheoli ymddygiad.

7 Pan fydd pwyllgorau rheoli UCDau yn effeithiol, mae ganddynt gynrychiolaeth o ystod eang o randdeiliaid, sydd â gwybodaeth ac arbenigedd perthnasol. Yn y pwyllgorau hyn, mae gan aelodau ddealltwriaeth glir o gryfderau'r UCD a'r meysydd y mae angen eu datblygu ac maent yn darparu cymorth a her gadarn.

8 Mae ansawdd yr addysg a ddarperir gan UCDau yn amrywio'n sylweddol. Lle ceir arfer effeithiol, mae gan staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer cyflawniad ac ymddygiad. Maent yn rhoi polisïau ymddygiad clir ar waith sy'n canolbwyntio ar ganmol a gwobrwyo ymddygiad da. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth glir o bolisi'r UCD ar gyfer gwobrau a chosbau ac mae pob un o'r staff yn cymhwyso'r polisi'n gyson.

9 Pan fydd UCDau yn helpu disgyblion i reoli eu hymddygiad yn effeithiol, mae gan ddisgyblion gynlluniau ymddygiad unigol (CYUau) clir gyda thargedau priodol. Mae staff yn cynnwys disgyblion mewn gosod ac adolygu'r targedau hyn, sy'n helpu disgyblion i ddeall eu hymddygiad a chymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd. Yn yr UCDau hyn, mae staff yn annog disgyblion i fynegi eu teimladau a thrafod eu hymddygiad gyda'i gilydd a gyda staff.

10 Yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, mae ystod y pynciau a gynigir yn y cwricwlwm yn amrywio'n sylweddol rhwng UCDau. Lle ceir arfer dda, mae UCDau yn cynnig ystod eang o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a chyfleoedd dysgu. Maent hefyd yn cynnig pynciau galwedigaethol fel adeiladu, cynnal a chadw beiciau, gwaith saer, gwallt a harddwch a bwyd a hylendid. Mae ystod yr opsiynau ac elfen o ddewis yn ffactorau pwysig o ran ymgysylltu â disgyblion sydd wedi colli diddordeb mewn addysg yn y gorffennol ac yn eu helpu i symud ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant.

11 Ar eu pen eu hunain, mae UCDau yn annhebygol o allu darparu cymaint o opsiynau ag ysgolion. I gynyddu ystod yr opsiynau sydd ar gael, mae rhai UCDau yn cysylltu'n dda â darparwyr eraill, er enghraifft ysgolion, colegau addysg bellach (AB) a darparwyr hyfforddiant ac yn sicrhau bod gan ddisgyblion lwybrau dysgu cynlluniedig sy'n bodloni eu hanghenion unigol ac yn ennyn eu diddordeb. Mewn rhai achosion, mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd i ymestyn y cyfleoedd cwricwlwm ar gyfer disgyblion UCD.

12 Yn yr UCDau lle mae disgyblion yn gwneud y cynnydd mwyaf, mae gan staff wybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o lefelau llythrennedd a rhifedd y disgyblion a'u hanghenion dysgu ychwanegol. Yn yr UCDau hyn, mae staff yn cynllunio ymyriadau priodol sy'n gwella safonau disgyblion. Megis dechrau datblygu y mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh) mewn llawer o'r UCDau yr ymwelwyd â nhw, yn rhannol am na chafodd pob un o'r UCDau eu cynnwys mewn hyfforddiant neu gymorth gan yr awdurdod lleol pan gyflwynwyd y FfLlRh i ddechrau. Yn fwy diweddar, mae staff UCDau wedi cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn mentrau a hyfforddiant llythrennedd a rhifedd.

13 Mae lefel arbenigedd staff i gefnogi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn amrywio rhwng UCDau. Yn yr achosion gorau, caiff staff hyfforddiant rheolaidd o ansawdd uchel sy'n eu helpu i gefnogi disgyblion ag anawsterau lleferydd ac iaith, anhwylder y sbectrwm awtistig, dyslecsia ac anghenion dysgu eraill.

**Arfer dda mewn ysgolion**

14 Mae ysgolion yn defnyddio ystod o strategaethau gwahanol i leihau nifer y gwaharddiadau ac atal disgyblion rhag mynd i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys cael:

- rhaglenni dysgu pwrpasol sydd wedi'u teilwra i fodloni anghenion disgyblion unigol
- dull ysgol gyfan o reoli ymddygiad
- systemau ar gyfer nodi disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio a rhoi ymyrraeth briodol ac amserol ar waith
- cydweithio agos ag asiantaethau eraill i ddarparu cymorth i ddisgyblion a'u teuluoedd

15 Mae pob un o'r ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg yn cydnabod pwysigrwydd datblygu cwricwlwm sy'n ennyn diddordeb disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio. Mae'r ysgolion hyn yn datblygu rhaglenni i fodloni anghenion disgyblion unigol. Yn gyffredinol, mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys ffocws ar opsiynau galwedigaethol a chymwysterau perthnasol sy'n paratoi disgyblion ar gyfer bywyd ar ôl yr ysgol. Maent hefyd yn cynnwys cyfuniad o weithgareddau yn yr ysgol ac oddi ar y safle.

16 Yn genedlaethol, mae cyfradd y gwaharddiadau wedi gostwng dros y 10 mlynedd ddiwethaf. Pan fydd ysgolion yn fwyaf effeithiol o ran lleihau gwaharddiadau a mynd i'r afael ag anghenion disgyblion yn yr ysgol, maent yn mabwysiadu dull ysgol gyfan cyson o reoli ymddygiad disgyblion, er enghraifft trwy ddefnyddio dulliau adferol.

17 Mae amrywiaeth o anawsterau gan lawer o ddisgyblion nad ydynt yn gallu cynnal lleoliadau prif ffrwd ac yn treulio amser mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Mae'r anawsterau hyn yn cynnwys sefyllfaoedd teuluol a phroblemau personol heriol. Nid yw medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion eraill wedi'u datblygu ddigon neu mae ganddynt anghenion dysgu ychwanegol eraill. Pan fydd gan ysgolion systemau effeithiol ar gyfer monitro ac olrhain cynnydd disgyblion, sy'n nodi disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio yn gynnar, gallant roi ymyrraeth briodol ar waith sy'n cadw disgyblion yn y brif ffrwd.

18 Mae gweithio agos rhwng ysgolion ac asiantaethau eraill, er enghraifft iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau gwirfoddol, yn helpu i sicrhau bod disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio, a'u teuluoedd, yn cael cymorth priodol ac amserol.

**Argymhellion**

**Dylai awdurdodau lleol, ysgolion ac UCDau:**

A1 gael strategaeth y cytunwyd arni'n lleol i gefnogi'r holl ddisgyblion sy'n agored i niwed fel eu bod yn aros mewn addysg amser llawn

A2 nodi disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio yn gynnar a rhoi ymyriadau priodol ac amserol ar waith

A3 cydweithio i gynyddu ystod yr opsiynau a'r profiadau dysgu sydd ar gael i ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol

**Dylai awdurdodau lleol:**

A4 sicrhau bod gan yr holl randdeiliaid ddealltwriaeth glir o rôl UCDau a mathau eraill o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol mewn continwwm o ddarpariaeth, a bod y darpariaethau hyn yn cynnwys meini prawf mynediad ac ymadael clir

A5 penodi staff UCD sydd â phrofiad ac arbenigedd priodol mewn arweinyddiaeth, addysgu a dysgu yn ogystal â rheoli ymddygiad

A6 sicrhau bod pob un o staff UCDau yn cael yr un cyfleoedd hyfforddi a datblygu â staff mewn ysgolion prif ffrwd

A7 gweithio gyda chonsortia rhanbarthol i ddarparu cymorth a her gadarn i reolwyr a phwyllgorau rheoli UCD

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A8 ddarparu arweiniad fframwaith ar rôl UCDau fel rhan o gontinwwm o ddarpariaeth

A9 ystyried cyflwyno cymhwyster proffesiynol cenedlaethol ar gyfer athrawon sydd â gofal am UCDau

A10 sicrhau bod staff UCDau yn elwa ar strategaethau cenedlaethol i wella ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth mewn addysg

## Teitl: Cymorth a chydweithio rhwng ysgolion

### Prif ganfyddiadau

1 Mae bron pob ysgol yn rhan o ryw fath o weithio mewn partneriaeth ag ysgolion eraill. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, ceir gwaith cydweithredol ag ysgolion eraill mewn clwstwr cynradd/uwchradd. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae'r holl waith ychwanegol rhwng ysgolion o ganlyniad i frocera (gan yr awdurdod lleol, consortia neu Lywodraeth Cymru). Mae gan tua hanner yr ysgolion drefniadau gweithio eraill rhwng ysgolion a grëwyd gan yr ysgolion eu hunain.

2 Mae trefniadau gweithio llwyddiannus rhwng ysgolion yn mynnu ymrwymiad dilys arweinwyr ysgolion ac agweddau yn gysylltiedig ag agoredrwydd, ymddiriedaeth a thryloywder. Hefyd, mae'n hanfodol bod y rhai sy'n cydweithio â'i gilydd wedi nodi amcanion strategol clir a meini prawf llwyddiant manwl ar gyfer y cyfryw gydweithio. Yn fwyaf hanfodol, rhaid i'r ffocws fod ar yr effaith i ddisgyblion.

3 Dim ond lleiafrif o ysgolion sydd â chymorth rhwng ysgolion a grëwyd gan yr ysgolion hynny a all nodi ei effaith ar safonau. Yn gyffredinol, mae hyn oherwydd nad ydynt yn gosod meini prawf llwyddiant clir nac yn arfarnu effaith y gwaith.

4 Er mwyn i gymorth rhwng ysgolion fod yn llwyddiannus, rhaid i arweinwyr ysgolion ymrwymo i fuddsoddi amser sylweddol staff ar gyfer ymchwil, datblygu a chydweithio.

5 Mae cymorth rhwng ysgolion yn gweithio orau:

- pan mae'n deillio o nodi angen yn glir, bod iddo sail resymegol glir a'i fod wedi ei seilio ar amcan strategol
- pan mae'r ffocws ar wella deilliannau i ddisgyblion
- pan mae'n fuddiol i bob un o'r cyfranogwyr
- pan mae'r ysgolion ar gamau tebyg ar eu taith wella oherwydd, os oes un ohonynt yn dda neu'n dda iawn a'r llall yn wan, mae'n llai tebygol y bydd y cymorth yn effeithiol oherwydd bod gormod o fwlch rhwng yr ysgolion
- pan mae'r berthynas rhwng ysgolion yn gyfartal, ymddiriedus, yn agored ac yn dryloyw

6 Mae'r rhwystrau a nodwyd rhag cydweithio effeithiol rhwng ysgolion yn cynnwys:

- diffyg ymrwymiad gan arweinwyr yr ysgolion
- diffyg buddiannau ar y cyd
- diffyg ymddiriedaeth a gonestrwydd
- cred nad oes gan eraill unrhyw beth defnyddiol i'w gynnig

7 Mewn tua hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae'r gweithgarwch wedi'i frocera rhwng ysgolion (ar wahân i gydweithio 14-19) yn ddiweddar ac mae'n rhy gynnar i weld ei effaith ar safonau.

8 Yn ymarferol, roedd bron pob un o'r trefniadau ffedereiddio presennol yn deillio o angen i arbed arian neu achub ysgolion rhag cael eu cau.

9 Mae'r rhan fwyaf o'r trefniadau ffedereiddio yn gymharol newydd. Mae tystiolaeth bod deilliannau i ddisgyblion yn ymwneud â lles, fel presenoldeb ac ymddygiad, yn gwella o ganlyniad i ffedereiddio. Mae'n rhy gynnar i arfarnu eu heffaith ar safonau yn llawn.

10 Mae ysgolion wedi'u ffedereiddio yn ceisio gwella profiadau dysgu disgyblion trwy gynllunio cynlluniau gwaith ar y cyd mewn cyfarfodydd rheolaidd o'r staff o'r ysgolion wedi'u ffedereiddio. Mae gweithgareddau allgyrsiol ar y cyd yn cyfrannu'n dda at les disgyblion. Mae athrawon yn datblygu ystod ehangach o fedrau addysgu o ganlyniad i gydweithio â'i gilydd a rhannu gweithgareddau datblygiad proffesiynol.

11 Bu manteision ariannol ym mron pob un o'r ffederasiynau. Mae'r rhain yn deillio o:

- rannu a chyfuno staff ac arbenigedd
- cyflawni dull cyson, er enghraifft i arfer asesu, datblygu medrau a rheoli ymddygiad
- gallu taro bargen well ar gyfer gwasanaethau ac adnoddau
- rhesymoli'r strwythur staffio (er enghraifft cael un pennaeth adran yn hytrach na dau)

12 Caiff ysgolion wedi'u ffedereiddio eu cofrestru'n ysgolion unigol, sy'n golygu, at ddibenion archwilio ac arolygu, cânt eu trin ar wahân. Mae'r ymdrech ddyblyg hon yn gwastraffu amser ac adnoddau.

**Argymhellion**

**Dylai arweinwyr ysgolion:**

A1 fod yn glir iawn ynghylch yr hyn y maent am ei gyflawni trwy gymryd rhan mewn gweithgarwch cymorth rhwng ysgolion

A2 nodi meini prawf llwyddiant penodol ar gyfer y gweithgarwch

A3 sicrhau bod y ffocws ar godi safonau a gwella deilliannau

A4 arfarnu'r effaith, costau a buddion

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia:**

A5 fod â strategaeth glir ar gyfer paru ysgolion i gydweithio â'i gilydd

A6 gosod disgwyliadau ynghylch sut bydd grwpiau'n gweithredu

A7 sicrhau bod adnoddau ar gael i ategu gwaith rhwng ysgolion

A8 nodi a lledaenu gwybodaeth am arfer sy'n haeddu cael ei hefelychu

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A9 ystyried ffyrdd i alluogi ffederasiynau i gofrestru'n ysgol unigol

A10 cydlynu cronfa ddata genedlaethol o arfer sy'n haeddu cael ei hefelychu sy'n dod ag astudiaethau achos arfer orau Estyn, a'r rhai a nodir gan gonsortia ac awdurdodau lleol, at ei gilydd

## Teitl: Adolygiad o bolisïau ymweliadau addysgol yn y sector addsyg bellach

### Prif ganfyddiadau

1 Yn gyffredinol, mae gan holl golegau Cymru bolisïau, gweithdrefnau ac arweiniad priodol a pherthnasol ar gyfer ymweliadau addysgol. At ei gilydd, maent yn bodloni gofynion deddfwriaethol. Mae trefniadau cyffredinol addas gan bob coleg ar gyfer asesu lefelau risg. Er bod yr holl bolisïau yn bodloni gofynion, nid yw ychydig ohonynt yn pennu'n ddigon clir beth sydd wedi'i gynnwys ym mhob polisi neu i bwy y mae'r polisi'n gymwys. Mae'r polisïau yn amrywiol iawn ac yn unigol iawn i bob coleg. Mae bron yr holl bolisïau yn amlinellu sail resymegol a dibenion ymweliadau addysgol, gyda phwyslais cryf ar werth dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

2 Fel arfer, mae polisi coleg yn amlinellu egwyddorion y polisi ac yn rhoi trosolwg o'r cyd-destun. Mae bron pob polisi yn nodi rolau priodol arweinydd grŵp a staff eraill ar ymweliadau addysgol. Mae'r rhan fwyaf o bolisïau yn cyfeirio'n ddefnyddiol at y medrau a'r cymwyseddau y mae angen i arweinwyr grŵp a staff cysylltiedig eraill feddu arnynt.

3 Mae bron yr holl golegau yn defnyddio eu staff iechyd a diogelwch yn dda ym mhob agwedd ar gynllunio ymweliadau addysgol. Mae'r gweithwyr proffesiynol iechyd a diogelwch yn darparu arweiniad a chymorth i staff, yn ogystal â hyfforddiant i asesu risg.

4 Mae'r rhan fwyaf o bolisïau'r colegau yn cyfeirio'n dda at asesu lefelau risg a'r angen i gynllunio'n ofalus i ystyried hyn wrth gynllunio ymweliadau. Mae ychydig o bolisïau yn cyfeirio'n benodol at yr Arweiniad Cenedlaethol ar ymweliadau addysgol a luniwyd gan y Panel Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored, er mai dim ond egwyddorion bras yr arweiniad y mae bron pawb yn eu dilyn.

5 Mae gweithdrefnau cadarn gan yr holl golegau ar asesiadau risg, gydag arweiniad buddiol i gyd-fynd â nhw. Mae bron pob coleg yn mynnu bod y rhain, ynghyd â chynlluniau gweithredol, yn cael eu craffu gan reolwr neu aelod o staff sy'n gyfrifol am reoli iechyd a diogelwch.

6 Mae gofynion manwl gan bob coleg ar gyfer asesu risg yn gymesur ag angen. Mae llawer o golegau yn mynnu bod swyddogion iechyd a diogelwch yn arwain ac yn cefnogi arweinwyr grŵp wrth iddynt gynllunio asesiadau risg. Mae hwn yn arfer dda. Er mwyn lleihau biwrocratiaeth gymaint â phosibl, mae'r rhan fwyaf o golegau yn nodi'r lefel risg sydd ynghlwm wrth fathau gwahanol o weithgarwch, ac yn defnyddio systemau 'cydsyniad cyffredinol' a rheoli generig o fewn cyd-destun polisi'r coleg ar gyfer gweithgareddau sy'n gymharol syml.

7 Mae'r holl bolisïau yn amlinellu disgwyliadau'r coleg o ran sicrhau bod ymweliadau addysgol wedi'u staffio'n briodol. Mae bron pob un ohonynt yn rhagdybio mai trefnydd yr ymweliad yw'r arweinydd grŵp, ond nid yw hyn yn ddigon clir bob amser. Mae'r rhan fwyaf o bolisïau yn cyfeirio at yr angen i'r holl staff cysylltiedig a gwirfoddolwyr gael cliriad priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

8 Mae’r rhan fwyaf o bolisïau yn gwneud cyfeiriadau buddiol at y gwahaniaeth rhwng goruchwyliaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol pan fydd sefydliadau trydydd parti yn gyfrifol am ddarparu a goruchwylio gweithgareddau.

9 Mae llawer o golegau yn darparu siartiau llif a rhestri gwirio defnyddiol o’r camau y dylai arweinwyr grŵp eu cymryd wrth gynllunio a rheoli ymweliadau addysgol. Mae’r rhain yn amlinellu’r camau y mae angen i staff eu cymryd ar bob cam o’r cynllunio. Mae bron pob coleg yn cyfeirio at yr angen i arweinwyr grŵp fod yn gyfarwydd â’r arweiniad presennol ar ymweliadau addysgol. Fodd bynnag, ychydig iawn o golegau sy’n mynnu bod yr arweinydd grŵp yn llofnodi datganiad ei fod/bod wedi gwneud hyn. Mae arweiniad defnyddiol gan lawer o golegau ar yr hyfforddiant y mae ei angen ar staff cyn ymgymryd â rôl arweinydd grŵp.

10 Mae lleiafrif o golegau yn cyfeirio’n benodol at reoli a goruchwylio dysgwyr yn ystod nosweithiau ar ymweliadau preswyl. Mae’r rhan fwyaf o golegau yn mynnu bod arweinwyr grŵp yn asesu’r risgiau sy’n gysylltiedig â ‘chyfnodau pan na fydd y dysgwyr yn ymwneud â dysgu ffurfiol’ yn eu cynlluniau manwl ar gyfer yr ymweliad. Fodd bynnag, nid yw’r wybodaeth hon bob amser yn darparu digon o arweiniad i arweinwyr grŵp a staff cysylltiedig i sicrhau bod y lefelau goruchwyliaeth yn ddigonol. Mae’r rhan fwyaf o golegau yn darparu canllawiau defnyddiol ar gyfer gwirio addasrwydd llety. Fodd bynnag, nid yw’r arweiniad hwn bob amser yn dweud yn ddigon pendant y dylai staff a dysgwyr gael lle yn yr un preswylfan fel arfer. Nid oes digon o arweiniad gan yr holl golegau ar rolau a chyfrifoldebau’r holl oedolion cysylltiedig sydd â chyfrifoldebau goruchwylio.

11 Dim ond lleiafrif o golegau sy’n gwneud cyfeiriadau penodol at y risgiau sy’n gysylltiedig ag yfed alcohol gan ddysgwyr neu staff yn ystod ymweliadau addysgol. Ymdrinnir â hyn yn aml yn y codau ymddygiad ar gyfer staff a dysgwyr. Mae bron yr holl golegau yn mynnu y dylai staff goruchwylio fod yn rhydd o alcohol bob amser, a hefyd unrhyw ddysgwyr o dan 18 oed. Mae gan golegau reolau amrywiol ar gyfer yfed alcohol i ddysgwyr dros 18 oed, er eu bod i gyd yn cyfeirio at god ymddygiad y coleg a chanlyniadau methu â chydymffurfio â’r cod. Nid yw pob coleg yn dweud yn glir pa gamau y bydd y coleg yn eu cymryd os bydd unrhyw ddysgwyr neu staff yn methu â chadw at y cod ymddygiad.

12 Mae gan bron yr holl golegau drefniadau da ar gyfer casglu gwybodaeth gyswllt argyfwng am bob un o’r dysgwyr a’r staff sy’n gysylltiedig ag ymweliadau addysgol wedi’u cynllunio. Mae gwybodaeth glir gan y rhan fwyaf o golegau am bwyntiau cyswllt y coleg pe bai argyfwng yn digwydd. Lle mae trefniadau argyfwng yn cael eu disgrifio, maent yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y modd y dylai arweinwyr grŵp a staff ymddwyn, gan gynnwys o ran cysylltu â chyswllt cytûn y coleg. Mewn ychydig o achosion, nid yw gweithdrefnau argyfwng y coleg yn rhoi digon o arweiniad clir ynglŷn â gwybodaeth gyswllt ar bob adeg o’r dydd a’r nos.

13 Mae’r holl golegau yn darparu cyfeiriadau buddiol at eu polisïau yswiriant a’r defnydd posibl o’r rhain i gynnwys ymweliadau addysgol. Mewn ychydig o achosion, nid ydynt yn rhoi digon o wybodaeth am beth yn union sy’n dod o dan bolisi yswiriant y coleg a pha bryd y mae angen i ddysgwyr drefnu yswiriant ychwanegol.

14 Mae pob un o'r colegau yn darparu gwybodaeth fanwl am y gofynion ychwanegol ar gyfer ymweliadau tramor. Mae bron pob coleg yn mynnu bod pennaeth y coleg yn awdurdodi unrhyw ymweliad tramor.

15 Mae'r rhan fwyaf o golegau yn darparu arweiniad buddiol ar ddefnyddio darparwyr trydydd parti a'r camau y dylai arweinwyr grŵp eu cymryd mewn perthynas â'r rhain yn y cam cynllunio. Nid yw ychydig o golegau yn gwneud hyn yn ddigon clir, fodd bynnag.

**Argymhellion**

**Dylai colegau addysg bellach yng Nghymru adolygu eu polisïau ac arweiniad ar ymweliadau addysgol er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag arfer orau. Dylent:**

A1 adolygu eu polisïau a'u harweiniad ategol ar gyfer ymweliadau addysgol er mwyn sicrhau eu bod yn amlinellu gweithdrefnau clir a syml ar gyfer cynllunio ymweliadau a bod cynlluniau ac asesiadau risg yn gymesur ag angen a lefel y risg

A2 mynnu bod arweinwyr grŵp yn meddu ar y wybodaeth, y cymhwysedd a'r profiad i drefnu ac arwain yr ymweliad, a'u bod wedi llofnodi datganiad eu bod wedi defnyddio'r arweiniad presennol wrth gynllunio'r ymweliad

A3 gwneud yn siŵr bod pob llety ar ymweliadau preswyl yn cael ei archwilio o ran addasrwydd, a bod staff goruchwylio yn aros yn yr un llety â dysgwyr

A4 mynnu, ar ymweliadau preswyl, bod trefniadau priodol ar gyfer goruchwylio amser di-fynd a bod yr holl staff sydd â rôl oruchwylio yn rhydd o alcohol

A5 mynnu bob amser bod yr holl ddysgwyr a rhieni yn ymwybodol o'r angen i gydymffurfio â chodau ymddygiad y coleg ar ymddygiad a chanlyniadau peidio â gwneud hynny

A6 gwneud yn siŵr bod gan unrhyw arweinydd cynorthwyol a/neu arweinwyr gwirfoddol rolau a chyfrifoldebau a ddeellir yn glir, a bod ganddynt gliriad diweddar gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd pan fyddant yn arwain grwpiau, sy'n cynnwys unrhyw ddysgwyr sydd naill ai o dan 18 oed neu oedolion sy'n agored i niwed

A7 darparu gwybodaeth glir i ddysgwyr a rhieni am gwmpas a chyfyngiadau eu polisïau yswiriant mewn perthynas ag ymweliadau addysgol, ac esbonio cyfrifoldebau a disgwyliadau darparwyr trydydd parti

A8 ystyried y cyngor yn yr Arweiniad Cenedlaethol ar ymweliadau addysgol a ddarparwyd gan y Panel Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored wrth adolygu eu polisïau a'u harweiniad ar ymweliadau addysgol

**Dylai'r Adran Addysg a Sgiliau:**

A9 fynnu bod yr holl golegau yn ystyried yr argymhellion hyn wrth adolygu a diweddaru eu polisïau a'u harweiniad ar ymweliadau addysgol

# Teitl: Arsylwi addsygu a dysgu yn effeithiol mewn colegau addysg bellach

## Prif ganfyddiadau

1 Mae arsylwi addysgu a dysgu yn gweithio orau mewn colegau sydd â gweledigaeth strategol glir ar gyfer sut i gyflawni addysgu a dysgu o ansawdd uchel, diwylliant cryf o wella, hunanarfarnu a datblygiad proffesiynol parhaus, ac sy’n gweithio fel tîm. Yn y colegau hyn, mae arsylwi gwersi’n ddull ar gyfer helpu athrawon i wella eu harfer eu hunain yn bennaf, yn hytrach na chael ei ddefnyddio’n offeryn ar gyfer arolygiad mewnol neu hunanasesiad coleg.

2 Er bod gan bob coleg a oedd yn gysylltiedig â’r arolwg hyn ddogfen polisi addysgu a dysgu ar waith, dim ond lleiafrif ohonynt sydd â pholisi sy’n amlinellu’n benodol y dibenion, gweithdrefnau a’r disgwyliadau ar gyfer arsylwi addysgu a dysgu. Mae hyn yn golygu, mewn ychydig o achosion, bod y staff sy’n cael eu harsylwi a’r arsylwyr, fel ei gilydd, yn aneglur ynghylch yr hyn a ddisgwylir ganddynt fel rhan o’r broses arsylwi.

3 Mae llawer o golegau wedi gweithio’n galed i ddatblygu diwylliant o arloesedd mewn addysgu a dysgu. Yn benodol, maent wedi gwneud defnydd da o brosiect y Gronfa Gwella Ansawdd. Roedd y prosiect hwn, a gydlynwyd gan ColegauCymru, yn cynnwys colegau’n datblygu ystod o ‘arbrofion â chymorth’, lle mae athrawon yn ymarfer dulliau addysgu arloesol â chymorth mentoriaid ac ymgynghorwyr.

4 Ar draws y sector, mae rheolwyr yn cyfarfod yn rheolaidd i rwydweithio a rhannu syniadau ac arfer newydd. Fodd bynnag, nid oes digon o staff addysgu yn cyfranogi mewn cymunedau dysgu proffesiynol y tu mewn i’w colegau neu’r tu allan iddynt. O ganlyniad, nid ydynt yn arsylwi cymheiriaid ddigon i rannu arfer dda â chydweithwyr, nac i nodi a myfyrio ar gryfderau a gwendidau yn eu haddysgu eu hunain. Dim ond ychydig o golegau sy’n cynllunio amser ar gyfer arsylwi cymheiriaid yn eu rhaglenni datblygu staff.

5 Dim ond mewn ychydig iawn o golegau y mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn arsylwi gwersi’n ffurfiol. Fodd bynnag, mae colegau’n ystyried barn dysgwyr trwy ddulliau eraill, gan gynnwys:

- siarad â dysgwyr ar ddiwedd arsylwi addysgu a dysgu
- ‘teithiau dysgu’ o gwmpas y coleg, lle caiff dysgwyr eu holi am eu profiadau
- holi cynrychiolwyr dysgwyr, fforymau a grwpiau ffocws
- ffurflenni arfarnu ac arolygon sy’n cael eu cwblhau ar lefel cyrsiau
- arolygon colegau sy’n cael eu cynnal i gael gwybodaeth am brofiadau dysgwyr
- arolwg Llais y Dysgwr Llywodraeth Cymru

6 Mae’r holl golegau yr ymwelwyd â nhw fel rhan o’r arolwg hwn yn defnyddio arsylwi’n rhan o broses gynlluniedig o fentora a hyfforddi. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae colegau’n defnyddio mentoriaid yn dda i gynorthwyo athrawon i ddatblygu eu medrau. Crybwyllodd staff fod mentora yn ddefnyddiol iddynt ac yn ddatblygiadol.

7 Dim ond ychydig o golegau sy’n arsylwi cynorthwywyr cymorth dysgu yn ffurfiol. Trwy beidio â gwneud hynny, mae colegau’n colli cyfle pwysig i ddatblygu medrau cynorthwywyr cymorth dysgu a rhannu arfer dda. Mae hefyd yn golygu na all colegau asesu effaith cynorthwywyr cymorth dysgu ar gynnydd dysgwyr.

8 At ei gilydd, mae athrawon AB yn teimlo y bu’r broses arsylwi, wedi ei chyfuno â chymorth a mentora, yn fuddiol. Maent yn crybwyll bod y prosesau hyn wedi eu helpu i wella eu medrau addysgu, eu cymhwysedd proffesiynol, a’u hyder, a bod y newidiadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau i ddysgwyr.

9 Fodd bynnag, mewn lleiafrif o golegau, gall fod gormod o ffocws ar radd wrth arsylwi gwersi’n ffurfiol, naill ai gan yr arsylwr neu’r athro/athrawes sy’n cael ei (h)arsylwi. Gall y ffocws gormodol hwn beri i arsylwadau achosi straen a bod yn llai effeithiol o ran gwella addysgu. Mewn cyferbyniad, mae adborth clir a thrafodaeth am y nodweddion da a’r meysydd i’w datblygu yn helpu athrawon i symud eu harfer ymlaen.

10 Mae’r holl golegau yn yr arolwg yn cymedroli ffurflenni arsylwi wedi’u graddio er mwyn helpu i sicrhau cysondeb a dibynadwyedd. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, mae panel o gymedrolwyr, gan gynnwys cynrychiolwyr y tu allan i’r coleg, yn gwirio’r ffurflenni er mwyn sicrhau y cânt eu llenwi’n gywir a bod sylwebaeth arfarnol yr arsylwr yn cyfateb i unrhyw radd a roddwyd. O ganlyniad, mae ffurflenni’n fwy arfarnol ac yn nodi cryfderau a meysydd i’w gwella yn gliriach, ac mae’r graddau a ddyfernir yn fwy dibynadwy.

11 Mae colegau sydd wedi uno’n ddiweddar yng Nghymru wedi canolbwyntio, yn y cyfnod yn syth ar ôl uno, ar arfarnu’r cryfderau a’r gwendidau yn eu darpariaeth. Mae hyn wedi cyfrannu at rai staff yn teimlo eu bod yn cael eu ‘gorarsylwi’. Erbyn hyn, mae’r colegau hyn yn symud tuag at raglenni arsylwi sy’n canolbwyntio’n adeiladol ar ddatblygu medrau addysgu eu staff.

**Argymhellion**

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A1 hyrwyddo cyfleoedd, fel prosiect y Gronfa Gwella Ansawdd, i gynorthwyo colegau wrth iddynt ddatblygu eu dulliau arsylwi addysgu a dysgu a’u hannog I rannu arfer arloesol ac effeithiol

**Dylai ColegauCymru:**

A2 gydweithio â cholegau a Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cymunedau dysgu proffesiynol sy’n canolbwyntio ar ddatblygu addysgu a dysgu

**Dylai Colegau:**

A3 sefydlu diwylliant o wella, hunanarfarnu a dysgu proffesiynol er mwyn i’r holl staff ddeall eu rolau a’u cyfrifoldebau

A4 sefydlu arferion hunanarfarnu sy’n ystyried ystod eang o dystiolaeth, gan

gynnwys arsylwi dosbarthiadau sy’n canolbwyntio ar safonau cyflawniad dysgwyr ac ar ansawdd addysgu a dysgu

A5 datblygu polisïau ac arferion clir a phenodol ar gyfer arsylwi addysgu a dysgu y mae’r holl staff yn eu deall a’u cymhwyso, a sicrhau bod yr holl staff sy’n gyfrifol am ddysgu, gan gynnwys cynorthwywyr cymorth dysgu, yn elwa ar arsylwadau rheolaidd

A6 trefnu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol staff, ar sail tystiolaeth sy’n cynnwys arsylwi addysgu a dysgu, sy’n cyfateb i flaenoriaethau’r coleg ac aelodau staff unigol

A7 ystyried manteision achredu arsylwyr â ‘thrwydded arsylwi’ fewnol neu fframwaith achredu allanol er mwyn gwella ansawdd a chysondeb hyfforddiant I arsylwyr

A8 gweithio ar y cyd â cholegau eraill i wella cysondeb arsylwadau wedi’u graddio ar draws colegau a rhannu arfer dda

A9 datblygu’r defnydd o arsylwadau heb eu graddio i helpu athrawon i ddatblygu eu medrau addysgu

A10 annog athrawon i fod yn berchen ar eu harfer broffesiynol eu hunain trwy roi cyfleoedd iddynt fyfyrio ar arfer, gan ddefnyddio arsylwadau cymheiriaid heb eu graddio, aelodaeth o rwydweithiau proffesiynol, mentora a chymorth cymheiriaid

## Teitl: Chwalu rhwystrau rhag prentisiaethau

### Prif ganfyddiadau

1 Yn ei lythyr cylch gwaith blynyddol ar gyfer 2013-2014, gofynnodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau i Estyn gynnal adolygiad dwy flynedd i'r rhwystrau rhag prentisiaethau sy'n deillio o unrhyw anawsterau y mae dysgwyr o grwpiau pobl dduon ac ethnig lleiafrifol a'r rhai ag anableddau yn eu cael wrth ddechrau rhaglenni prentisiaeth.

2 Cyhoeddodd Estyn y cyntaf o ddau adroddiad yn Nhachwedd 2014. Mae'r adroddiad yn nodi'r rhwystrau sy'n atal dysgwyr o gymunedau pobl dduon ac ethnig lleiafrifol a'r rhai ag anableddau rhag ymgymryd â rhaglenni prentisiaeth. Mae'r rhwystrau'n cynnwys:

- diffyg ymwybyddiaeth o brentisiaethau gan rieni, gyflogwyr a dysgwyr eu hunain
- ychydig o fodelau rôl prentisiaeth o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig neu o grwpiau pobl anabl
- anawsterau o ran dod o hyd i leoliadau gwaith addas, yn enwedig lle y mae cyflogwyr o'r farn y bydd angen darparu cymorth ychwanegol i ddysgwyr
- gwahaniaethu gwirioneddol neu ganfyddedig
- anawsterau ieithyddol i fyfyrwyr y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a gwahaniaethau diwylliannol
- methu â manteisio ar y cymorth sydd ar gael i ddysgwyr neu fethu â'i ddefnyddio'n llawn
- pryder rhieni na fydd y bobl ifanc yn gallu ymdopi
- diffyg cydlynu rhwng ysgolion, cyflogwyr, darparwyr dysgu yn y gwaith a sefydliadau cymunedau lleol er mwyn hyrwyddo prentisiaethau

3 Yn ogystal, er bod yr adroddiad wedi nodi bod gan fwyafrif y darparwyr drefniadau da i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, nododd yr adroddiad na allant ddangos bod hyn yn trosi'n welliant mesuradwy o ran lleihau rhwystrau neu stereoteipio.

4 Mae'r ail adroddiad hwn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed yn yr adroddiad cyntaf. Mae'n nodi enghreifftiau o arfer dda yn hyrwyddo amrywiaeth mewn prentisiaethau, gyda ffocws ar bobl ifanc o gymunedau pobl dduon ac ethnig lleiafrifol a phobl ifanc ag anableddau, ynghyd â nodi enghreifftiau o arfer dda yn ymwneud â gweithio ar y cyd rhwng darparwyr, cyflogwyr a chymunedau i gyflawni amrywiaeth mewn prentisiaethau.

5 Fel rhan o'r adolygiad hwn, fe wnaeth arolygwyr gasglu ac arfarnu ystod o wybodaeth. Gofynnont am wybodaeth gan ddarparwyr dysgu yn y gwaith, cyflogwyr a dysgwyr, a mynychu nifer o gynadleddau cenedlaethol i ennill barn cynifer o bartïon â buddiant â phosibl. Mae'r astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn yn cael eu defnyddio gyda chytundeb yr unigolion dan sylw.

6 Bwriad yr adroddiad hwn yw llywio datblygiad pellach arweiniad cydraddoldeb ac amrywiaeth Llywodraeth Cymru i ddarparwyr dysgu yn y gwaith a lledaenu astudiaethau achos arfer dda ar draws y rhwydwaith dysgu yn y gwaith.

## Teitl: Defnydd statudol o safonau arweinyddiaeth wrth reoli perfformiad penaethiaid

### Prif ganfyddiadau

1 Mae gan yr holl benaethiaid yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg hwn drefniadau rheoli perfformiad ar waith yn ymwneud â'u hamcanion rheoli perfformiad eu hunain. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae cylch rheoli perfformiad y pennaeth wedi ei amseru'n briodol i ddechrau yn ystod ail hanner tymor yr hydref er mwyn galluogi'r panel arfarnu i ystyried perfformiad y flwyddyn ysgol flaenorol. Mewn llawer o achosion, mae cylch rheoli perfformiad y pennaeth yn cynnwys pwynt adolygu interim defnyddiol, gan eu galluogi i bennu amcanion newydd os cyflawnwyd un neu fwy ohonynt.

2 Mae'r holl benaethiaid y cyfwelwyd â nhw a fu'n gwneud y swydd am dros ddwy flynedd yn cadw cofnodion priodol. Mewn llawer o achosion, mae penaethiaid yn cofnodi eu deilliannau mewn dogfen drosolwg. Maent yn darparu dadansoddiad ystadegol o ddeilliannau'r ysgol a thystiolaeth yn erbyn yr amcanion a bennwyd. Fodd bynnag, er bod penaethiaid yn rhoi sylw da i'r 'hyn' y dylid ei gyflawni (yr amcanion rheoli perfformiad), yn y rhan fwyaf o achosion, dim ond ychydig iawn ohonynt sy'n myfyrio'n llawn yn ysgrifenedig ar 'sut' y dylid cyflawni'r amcanion (cymhwyso'r safonau arweinyddiaeth). At ei gilydd, mae'r dogfennau'n darparu man cychwyn addas ar gyfer trafodaeth y panel arfarnu am berfformiad y pennaeth.

3 Ychydig iawn o'r paneli arfarnu sy'n defnyddio'r safonau arweinyddiaeth yn effeithiol i arfarnu perfformiad y pennaeth. Yn yr ysgolion hyn, mae llywodraethwyr yn gofyn i benaethiaid myfyrio'n ysgrifenedig ar sut maent wedi arwain yr ysgol yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn galluogi'r panel arfarnu i gael dealltwriaeth fwy cytbwys o waith y pennaeth yn ystod y flwyddyn ysgol.

4 Ym mron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae penaethiaid yn nodi eu hanghenion datblygiad proffesiynol eu hunain yn gywir mewn perthynas â'u hamcanion rheoli perfformiad. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o benaethiaid yn crybwyll bod dod o hyd i ddatblygiad proffesiynol addas yn llafurus a'i bod yn anodd sicrhau ei ansawdd. Dywed y rhan fwyaf o benaethiaid mewn swyddi parhaol bod cymorth yn dilyn eu penodiad cyntaf fel pennaeth yn wael.

5 Mae gan y rhan fwyaf o lywodraethwyr sy'n eistedd ar baneli arfarnu penaethiaid brofiad blaenorol o brosesau rheoli perfformiad. Mae'r rhan fwyaf o'r llywodraethwyr sydd wedi cael hyfforddiant i eistedd ar y panel arfarnu o'r farn bod yr hyfforddiant wedi rhoi dealltwriaeth dda iddynt o sut i gyflawni'r arfarniad. Fodd bynnag, mae llawer o lywodraethwyr yn llai hyderus o ran eu dealltwriaeth o'r medrau arweinyddiaeth.

6 Mewn llawer o achosion ar hyn o bryd, mae cynrychiolydd yr awdurdod lleol ar y panel arfarnu yn ymgynghorydd her a benodwyd yn ddiweddar, ac nid oes ganddynt wybodaeth fanwl am yr ysgol.

7 Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae penaethiaid yn cymhwyso math o arweinyddiaeth wasgaredig ac mae gan aelodau staff uwch ac ychydig o athrawon gyfrifoldebau dros waith yr ysgol. Yn y mwyafrif o ysgolion, nid yw penaethiaid yn cynllunio'n dda ar gyfer arweinyddiaeth wasgaredig, ac nid yw hyn yn ymestyn yn agored y tu hwnt i arweinwyr canol.

8 Mewn ychydig o ysgolion, mae penaethiaid yn cadw golwg eang wrth ddatblygu medrau arweinyddiaeth yn eu staff. Maent yn disgwyl i staff nid yn unig gyflawni'n dda yn eu swyddi arweinyddiaeth presennol er lles yr ysgol a'r disgyblion, ond i ddatblygu'n arweinwyr y dyfodol. Yn yr ysgolion hyn, i ddechrau, mae penaethiaid yn dewis uwch arweinwyr ac arweinwyr canol am y cryfderau a'r medrau maent yn eu dangos mewn maes arweinyddiaeth. Maent yn sicrhau bod uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn myfyrio ar eu hamcanion rheoli perfformiad ac ar y safonau arweinyddiaeth. Maent yn eu helpu i ddiffinio'r safonau arweinyddiaeth maent yn eu dangos, ac yn cynnig cyfleoedd i staff symud ymlaen trwy ddatblygiad proffesiynol sy'n gysylltiedig â safonau arweinyddiaeth nad yw'r staff wedi eu harddangos hyd yn hyn.

9 Mewn llawer o ysgolion, mae gan aelodau staff uwch rolau sy'n cyfateb yn dda i'w cryfderau a'u galluoedd. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr sy'n aros yn yr un rôl arweinyddiaeth am gyfnod hir yn gweld yr angen i symud ymlaen i rolau arweinyddiaeth uwch neu i ddatblygu eu medrau a gwybodaeth am arweinyddiaeth ymhellach bob tro.

10 Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid a phaneli arfarnu yn cadw'r safonau arweinyddiaeth mewn cof wrth arfarnu perfformiad. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o benaethiaid yn defnyddio'r medrau arweinyddiaeth yn ddigon cadarn i helpu i ddatblygu eu medrau arweinyddiaeth a'u hymddygiad. O ganlyniad, dim ond ychydig o arweinwyr sy'n herio eu hunain neu eu cydweithwyr yn ddigon effeithiol.

11 Er bod themâu allweddol y safonau arweinyddiaeth yn berthnasol o hyd, gan mwyaf, mae gormod o ddangosyddion i fod yn ddefnyddiol, ar y cyfan. Yn ogystal, ni chynhwysir dangosyddion pwysig. Er enghraifft, mae creu gweledigaeth ar gyfer yr ysgol yn mynnu bod arweinwyr yn 'syllu ar y gorwel' i ddilyn y newidiadau mewn cyddestunau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ac adolygu'r weledigaeth ar gyfer yr ysgol yn rheolaidd a'i haddasu, yn ôl yr angen. Mae hwn yn fedr pwysig iawn os yw ysgolion am ddarparu addysg i ddisgyblion sy'n eu paratoi'n effeithiol ar gyfer y dyfodol. Mae syllu ar y gorwel yn dod o flaen llunio'r cyfeiriad strategol. Fodd bynnag, ni chaiff y medr hwn, sef un y mae penaethiaid yn ei gael yn anodd, ei fynegi'n glir yn y safonau arweinyddiaeth.

**Argymhellion**

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A1 Ddiwygio'r safonau arweinyddiaeth i gyfleu'r disgwyliadau uwch o arweinwyr a chanolbwyntio'n fanylach ar y medrau arweinyddiaeth a'r ymddygiad sydd eu hangen i ysgogi newid

**Dylai paneli arfarnu:**

A2 Bennu amcanion priodol sy'n mynd i'r afael ag ymddygiad arweinyddiaeth a sut

mae arweinwyr yn ymgymryd â'u rolau, yn ogystal â deilliannau mesuradwy

A3 Cofnodi'n fanwl, gan ddefnyddio'r ystod lawn o safonau arweinyddiaeth, pa mor dda y mae'r pennaeth wedi cyflawni'r rôl, yn ogystal ag adrodd ar yr hyn y mae'r pennaeth wedi ei gyflawni

**Dylai awdurdodau lleol / consortia rhanbarthol:**

A4 Annog penaethiaid i fyfyrio'n gyfannol ar ansawdd eu harweinyddiaeth gan ddefnyddio'r themâu a amlinellir yn y safonau arweinyddiaeth, ac yn unol â'r arweiniad ar Adolygiad Arweinyddiaeth Unigol a ddarperir ar wefan 'Dysgu Cymru'

A5 Herio'r pennaeth a'r corff llywodraethol i sicrhau bod cyfleoedd priodol i'r holl staff ddatblygu eu medrau arweinyddiaeth

**Dylai penaethiaid:**

A6 Fyfyrio'n ysgrifenedig ar ba mor dda y maent yn bodloni'r ystod ehangach o safonau arweinyddiaeth, yn ogystal â ph'un a ydynt wedi bodloni amcanion rheoli perfformiad ai peidio

A7 Sicrhau bod cyfleoedd i'r holl staff yn eu hysgolion ddatblygu eu rolau a'u medrau arweinyddiaeth ar hyd eu gyrfaoedd

A8 Hyfforddi a mentora staff sy'n dangos yr ymddygiad a'r medrau a fyddai'n eu galluogi i ddod yn arweinwyr yn y dyfodol

## Teitl: Gwasanaethau cymorth dysgwyr mewn colegau adysg bellach ar gyfer dysgwyr 16-19 oed

### Prif ganfyddiadau

1 Mae gan y rhan fwyaf o golegau ystod dda o gymorth ar waith ar gyfer eu dysgwyr. Yn y rhan fwyaf o golegau, mae uwch reolwyr yn monitro perfformiad staff cymorth dysgu yn dda. Mae staff cymorth yn defnyddio ystod eang o ymyriadau i sicrhau bod dysgwyr yn gwella'u medrau sylfaenol a hanfodol. Mae systemau gwybodaeth reoli datblygedig gan y rhan fwyaf o golegau, sy'n olrhain presenoldeb, cynnydd a pherfformiad dysgwyr. Mae tiwtoriaid a dysgwyr unigol yn trafod eu perfformiad ac yn defnyddio'r data i gytuno ar dargedau gwella. Hefyd, defnyddiant diwtorialau i helpu dysgwyr i ddatblygu eu medrau cynllunio gyrfa. Caiff rheolwyr wybodaeth dda am gynnydd dysgwyr.

2 Mae gwasanaethau cymorth dysgu yn cynnwys hyfforddwyr dysgu, mentoriaid, cwnselwyr, gwasanaethau caplaniaeth a chynghorwyr lles sy'n cynorthwyo dysgwyr â materion ariannol. Mae lleiafrif o golegau yn cyflogi arbenigwyr pwrpasol sy'n rhoi cyfarwyddyd gyrfaoedd hefyd. Mae'r rhan fwyaf o golegau yn gosod targedau clir i'r staff cymorth dysgu hyn. Mae systemau tiwtorial strwythuredig gan y rhan fwyaf o golegau. Mae tiwtoriaid yn defnyddio gwasanaethau cymorth dysgu i helpu dysgwyr sy'n ystyried gadael ac i wella rhagolygon dysgwyr o barhau mewn addysg.

3 Mae colegau yn asesu dysgwyr ac yn eu cynghori pan fyddant yn dechrau, er mwyn eu helpu i ddewis y cwrs mwyaf priodol a nodi pa gymorth, os o gwbl, y mae ei angen ar ddysgwyr i wella'u medrau sylfaenol. Ar draws Cymru, dywed colegau fod ar rhwng 20% a 35% o ddysgwyr angen cymorth â'u medrau llythrennedd neu rifedd i ymdopi â galwadau eu dewis cyrsiau. Mae bron pob un o'r dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn cymorth cynlluniedig, da wrth iddynt symud o'r ysgol i sefydliad addysg bellach. Cyflawnir hyn trwy weithio'n effeithiol ac agos mewn partneriaeth rhwng yr ysgol, y sefydliad a Gyrfa Cymru.

4 I ddarpar ddysgwyr nad oes ganddynt anghenion dysgu ychwanegol, ar y cyfan, mae colegau addysg bellach yn cydweithio'n dda ag ysgolion a Gyrfa Cymru i hyrwyddo'u darpariaeth. Fodd bynnag, erbyn hyn, mae'n ofynnol i gynghorwyr Gyrfa Cymru weithio gyda'r dysgwyr mwyaf agored i niwed yn unig a dywed lleiafrif o golegau fod ailstrwythuro gwasanaethau Gyrfa Cymru fel hyn wedi lleihau'r graddau y mae dysgwyr yn derbyn cyfarwyddyd ac arweiniad diduedd [wyneb yn wyneb].

5 Ym mron pob coleg, mae arweinwyr yn cynllunio'r cwricwlwm yn dda ac yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau ar lefelau sy'n cynnig hyblygrwydd a dewis i ddysgwyr. Maent yn monitro dysgwyr ac yn nodi ac yn cynorthwyo'r rhai sydd mewn perygl o roi'r gorau i'w cyrsiau. Fel arfer, caiff dysgwyr yr hyblygrwydd i newid eu dewis o gyrsiau yn gynnar ac mae tiwtoriaid yn annog dysgwyr i barhau ag addysg. Mae cyfraddau cadw yn dda.

6 Mae gan y rhan fwyaf o golegau drefniadau da i gefnogi dysgwyr ôl-16 sy'n ymuno'n hwyr yn ystod y flwyddyn. Maent wedi nodi bod dysgwyr sy'n dechrau'n hwyr yn tueddu i adael cyn cwblhau eu hastudiaethau ac maent wedi cyflwyno mentrau fel derbyniadau strwythuredig ym mis Ionawr neu gymorth mentora targedig i ddysgwr

sy'n dechrau'n hwyrach yn nhymor yr hydref. Cyflwynwyd llawer o'r mentrau hyn yn ddiweddar ac mae'n rhy gynnar eto i farnu eu heffaith.

7 Mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio systemau data i gael gwybod am berfformiad a chynnydd dysgwyr, ac maent yn troi at adborth dysgwyr i wella darpariaeth a chymorth. Mae ychydig golegau'n datblygu systemau i fesur cynnydd neu 'bellter teithio' dysgwyr yn ystod eu cyrsiau, ond nid oes dull cyffredin ledled Cymru. Dim ond ychydig bach iawn o golegau sydd â system sy'n defnyddio data i fonitro pa mor effeithiol y mae dysgwyr yn gwneud cynnydd tuag at yr amcanion a amlinellir yn Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith (2008) Llywodraeth Cymru.

8 Ar y cyfan, mae colegau'n rhoi cymorth priodol i ddysgwyr er mwyn iddynt symud ymlaen i'w cyrchfan nesaf. Mae tiwtoriaid a staff darlithio yn defnyddio'u gwybodaeth dechnegol a galwedigaethol i helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau priodol ynghylch dilyniant. Mae gan lawer o ddysgwyr ymwybyddiaeth dda o'r cyfleoedd dilyniant sydd ar gael iddynt a theimlant fod staff yn eu paratoi'n dda ar gyfer eu cam nesaf.

9 Mae colegau'n casglu gwybodaeth am gyrchfannau bwriadedig dysgwyr pan fyddant yn gadael, ond ni chaiff y data hwn ei gasglu'n ddigon dibynadwy i alluogi arfarniad defnyddiol o gynllunio gyrfaol dysgwyr nac i gymharu cynnydd ag ymadawyr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o golegau'n defnyddio data am gyrchfannau yn sylfaen ar gyfer arfarnu llwyddiant eu darpariaeth. Fodd bynnag, ni ddefnyddir dull cyffredin gan golegau ar draws Cymru. Tra bod data ysgolion am gyrchfannau yn seiliedig ar olrhain dysgwyr i wirio'u cyrchfannau ar ôl iddynt adael yr ysgol, mae data am gyrchfannau ymadawyr sefydliadau addysg bellach wedi'i seilio ar fwriad penodedig dysgwyr. Dim ond lleiafrif o golegau sy'n ymdrechu'n systematig i fynd ar drywydd dysgwyr er mwyn cadarnhau eu cyrchfannau.

**Argymhellion**

**Dylai colegau addysg bellach:**

A1 ddatblygu dull cyffredin o fesur cyflawniadau dysgwyr, gan gynnwys eu cynnydd yn erbyn yr amcanion a amlinellir yn Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith (2008) Llywodraeth Cymru (gweler Atodiad 2)

**Dylai awdurdodau lleol:**

A2 wneud yn siŵr bod pob dysgwyr yn gwybod am yr ystod gyfan o opsiynau ôl-16 sydd ar gael iddynt

A3 gwneud yn siŵr bod colegau'n cael gwybodaeth amserol am gyflawniadau ac anghenion cymorth dysgwyr sy'n symud ymlaen i addysg bellach

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A4 weithio gydag ysgolion, colegau, Gyrfa Cymru ac awdurdodau lleol i ddatblygu system genedlaethol ar gyfer casglu data ar gyrchfannau pobl ifanc 18 oed